



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Cadw perfformwyr ifanc yn ddiogel

Canllawiau i gyd-fynd â rheoliadau 2015 ar gyfer perfformiadau plant

[www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)



## Canllawiau

Dogfen ganllawiau: rhif 192/2015

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2015

# Cadw perfformwyr ifanc yn ddiogel

<b>Cynulleidfa</b>	Awdurdodau lleol; penaethiaid a chyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir; penaethiaid a chyrrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig; athrawon sy'n gyfrifol am unedau cyfeirio disgyblion; awdurdodau esgobaethol; perchnogion ysgolion annibynnol; penaethiaid sefydliadau addysg bellach; sefydliadau addysg uwch; undebau staff ysgolion; undebau athrawon; Llywodraethwyr Cymru; Gyrfa Cymru; Cadeiryddion Byrddau Diogelu Plant Lleol; cwmnïau darlledu; cwmnïau theatr, cyrrff operatig; cyrrff gwirfoddol ac elusennol sy'n gweithio gyda phlant neu sydd ag aelodau sy'n blant (gan gynnwys staff yn y cyrrff hynny sydd â chyfrifoldeb arweiniol am ddiogelu plant).
<b>Trosolwg</b>	Mae'r ddogfen hon yn cynnwys canllawiau i gyd-fynd â'r rheoliadau newydd ar gyfer perfformiadau plant yng Nghymru.
<b>Camau i'w cymryd</b>	Dim – er gwybodaeth yn unig.
<b>Rhagor o wybodaeth</b>	Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at: Debbie Campbell Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr Y Gyfarwyddiaeth Seilwaith, Cwricwlwm, Cymwysterau a Chymorth i Ddysgwyr Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ Ffôn: 029 2082 5807 e-bost: <a href="mailto:keepingyoungperformerssafe@cymru.gsi.gov.uk">keepingyoungperformerssafe@cymru.gsi.gov.uk</a>
<b>Copiau ychwanegol</b>	Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn <a href="http://www.llyw.cymru/addysgagiliau">www.llyw.cymru/addysgagiliau</a>
<b>Dogfennau cysylltiedig</b>	<i>Rheoliadau perfformiadau plant: pryd caiff plant gymryd rhan mewn perfformiadau a'r seibiannau y mae'n rhaid iddynt eu cael</i> (2014) Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Cymru) 2015

# Cynnwys

<b>Cyflwyniad</b>	<b>3</b>
<b>Crynodeb o'r canllawiau</b>	<b>4</b>
Beth yw statws y canllawiau hyn?	4
Ar gyfer pwy mae'r canllawiau hyn wedi'u cynllunio?	4
Beth sydd wedi newid?	4
Beth sy'n cael ei gynnwys?	5
Pam fod hyn wedi newid?	5
Pryd fydd y trefniadau hyn yn dod i rym?	6
Beth yw ystyr rhai geiriau penodol?	6
Pam fod angen i mi ddilyn y trefniadau hyn?	6
<b>1. Pryd fydd angen trwydded?</b>	<b>7</b>
Crynodeb	7
Mathau o berfformiad/gweithgaredd	7
Eithriadau	8
Ysgolion	8
Y rheol pedwar diwrnod	9
Cymeradwyaeth Dorfol	9
<b>2. Beth am addysg a'r ysgol?</b>	<b>11</b>
Crynodeb	11
Absenoldeb o'r ysgol	11
Llythyr y Pennaeth	11
Ceisiadau am drwydded a chymeradwyo absenoldeb	11
Perfformiadau eraill	12
Addysg y tu allan i'r ysgol	12
Athrawon preifat	13
<b>3. Pa reolau sy'n gymwys i bob perfformiad, hyd yn oed heb drwydded?</b>	<b>14</b>
Crynodeb	14
Pob perfformiad	14
Amser yn cymryd rhan mewn perfformiad neu ymarfer bob dydd	14
Seibiannau	14
<b>4. Beth mae trwydded yn ei gynnwys?</b>	<b>16</b>
Crynodeb	16
Diogelu plant a'u haddysg	16
Polisi diogelu plant	16
Amser yn ymarfer, yn perfformio ac yn y lleoliad perfformio	16
Hyd yr amser perfformio	17
Amser teithio	17
Gweithio yn y nos	17
<b>5. Beth yw rôl hebryngwr?</b>	<b>18</b>
Crynodeb	18
Hebryngwyr	18

Hyfforddiant ac addasrwydd	18
Dyletswyddau cyffredinol	19
Sgriptiau	19
Hawl i amrywio amseroedd gorffen	20
<b>6. Sut mae ymgeisio am drwydded?</b>	<b>21</b>
Crynodeb	21
Person cyfrifol	21
Awdurdod lleol cyfrifol	21
Gwybodaeth angenrheidiol	21
Llofnodion	22
Asesu risg	22
Diogelwch gwybodaeth a diogelu data	22
<b>7. Sut caiff y cais ei ystyried?</b>	<b>23</b>
Crynodeb	23
Amseru ceisiadau	23
Ceisiadau am wybodaeth sydd heb ei chynnwys neu wybodaeth ychwanegol	23
Amodau pellach	23
Amserlen	24
Cymeradwyo llety	24
Cymeradwyo'r lleoliad perfformio neu ymarfer	24
Cymeradwyo neu wrthod cais	24
<b>8. Beth sydd angen i chi ei wneud ar ôl cael y drwydded?</b>	<b>25</b>
Crynodeb	25
Cadw cofnodion	25
Cadw cofnodion o'r amser a gaiff ei dreulio gan y plentyn	25
Gorfodi, estyn a diddymu gan yr awdurdod lleol	25
<b>9. Beth am gymryd rhan mewn perfformiadau neu weithgareddau tramor?</b>	<b>27</b>
Crynodeb	27
Trwydded ar gyfer perfformiadau neu weithgareddau tramor	27
<b>Atodiad A: Amlinelliad o'r broses drwyddedu</b>	<b>29</b>
<b>Atodiad B: Pa berfformiadau y gellid bod angen trwydded ar eu cyfer</b>	<b>30</b>
<b>Atodiad C: Cyfyngiadau amser i blant sy'n cymryd rhan mewn unrhyw berfformiad neu weithgaredd</b>	<b>31</b>
<b>Atodiad D: Gwybodaeth sydd ei hangen ar gyfer cais am drwydded</b>	<b>32</b>
Rhan A – Y plentyn	32
Rhan B – Perfformiad neu weithgaredd	33
Dogfennau ychwanegol	35
<b>Atodiad E: Trawsgyfeirio</b>	<b>36</b>
Rheoliadau i'r Canllawiau	36
Canllawiau i'r Rheoliadau	38

## Cyflwyniad

Mae gan Gymru draddodiad hir a balch o gyfranogi yn y celfyddydau perfformio a chwaraeon dros flynyddoedd lawer, gyda llawer o'n perfformwyr mwyaf disglair yn cyflawni llwyddiant byd-eang. Anaml fydd y llwyddiannau hyn yn digwydd dros nos, ac mae llawer o blant ledled Cymru'n cymryd rhan mewn perfformiadau a gweithgareddau yn yr ysgol, mewn canolfannau lleol a theatrau proffesiynol bob dydd. Mae rhai yn cymryd rhan mewn sioeau proffesiynol mawr neu mewn cynyrchiadau ffilm neu deledu, neu mewn digwyddiadau mawr ar gyfer ymweliadau neu wyliau arbennig. Caiff rhai eu talu am eu perfformiadau, gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â chwaraeon a gwaith model.

Ni fydd pob un o'r plant hyn yn datblygu'n enwau cyfarwydd yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y gall y cyfleoedd hyn yn aml helpu plant i dyfu o ran eu hyder, cynyddu eu hunan-barch a chynnig sylfaen ar gyfer dysgu amrywiaeth o sgiliau newydd, yn ogystal â rhoi'r cyfle i rai adeiladu gyrfa yn y sector creadigol. Rydym ni am wneud yn siŵr fod plant yn gallu manteisio ar y cyfleoedd hyn lle bo'n bosibl er mwyn iddyn nhw wneud y gorau o'r manteision hyn a mwynhau'r cyfle i berfformio'n gyhoeddus.

Wrth ystyried y trefniadau sy'n galluogi plant i gyfranogi yn y gweithgareddau hyn, mae'n hanfodol mai diogelu a hyrwyddo lles y plant hyn yw'r egwyddor bwysicaf. Mae'r canllawiau hyn yn darparu fframwaith i sicrhau bod lles plant sy'n perfformio yn cael ei ddiogelu'n effeithiol, eu bod yn derbyn gofal priodol a bod eu haddysg a'u hawliau'n cael eu hamddiffyn.

Mae gan bob awdurdod lleol ddyletswydd gyfreithiol i ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Mae'r trefniadau newydd hyn yn gyson â'r ddyletswydd hon gan helpu i ddiogelu'r holl blant sy'n cymryd rhan mewn perfformiadau, gweithgareddau chwaraeon a modelu. Bydd hyn yn golygu pethau gwahanol i wahanol blant: bydd angen trwyddedau unigol ar rai plant, sy'n gosod rheolau penodol yn rheoli pa mor hir y gallan nhw weithio, pwy sy'n gofalu amdany'n nhw a sut y bydd eu haddysg yn parhau. Dim ond rheolau syml fydd eu hangen ar eraill i wneud yn siŵr nad yw eu hiechyd a'u haddysg yn cael eu heffeithio.

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio Rheoliadau newydd – Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Cymru) 2015 – sy'n darparu fframwaith cyfreithiol fel sylfaen i'r trefniadau newydd hyn ac a fydd yn helpu i sicrhau bod y plant hyn yn cael eu diogelu'n iawn wrth gymryd rhan mewn perfformiadau a gweithgareddau eraill. Mae'r canllawiau hyn yn egluro'r trefniadau newydd er mwyn i rieni, trefnwyr ac awdurdodau lleol allu eu deall yn rhwydd, ac er mwyn i'r plant gael y cyfle i wneud y gorau o'r cyfleoedd hyn. Maen nhw'n darparu fframwaith i sicrhau bod plant yn cael cyfle i ragori yn eu dewis o weithgareddau, a'n bod ni'n gallu cadw perfformwyr ifanc yn ddiogel.

## **Crynodeb o'r canllawiau**

### **Beth yw statws y canllawiau hyn?**

1. Mae'r canllawiau hyn wedi'u cynllunio i'ch helpu chi i ddeall gofynion Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Cymru) 2015, a luniwyd gan Weinidogion Cymru dan Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 a Deddf Plant a Phobl Ifanc 1963. Daeth y Rheoliadau hyn i rym ar 30 Hydref 2015 gan ddisodli Rheoliadau Plant (Perfformiadau) 1968 (fel yr oeddent yn gymwys i Gymru) a dirymu Rheoliadau Plant (Perfformiadau) (Diwygiadau Amrywiol) 1998 (fel yr oeddent yn gymwys i Gymru) a Rheoliadau Plant (Perfformiadau) (Diwygio) (Cymru) 2007. Mae'r canllawiau hyn yn anstatudol a dylid eu darllen gyda'r Rheoliadau a deddfwriaeth sylfaenol berthnasol wrth ystyried materion yn ymwneud â thrwyddedu ar gyfer perfformiadau, gweithgareddau chwaraeon a modelu.

### **Ar gyfer pwy mae'r canllawiau hyn wedi'u cynllunio?**

2. Mae'r canllawiau'n gosod sylfaen i'r trefniadau ar gyfer trwyddedu perfformiadau plant yn effeithiol, sydd dan reolaeth awdurdodau lleol fel yr awdurdod trwyddedu perthnasol. Maen nhw'n berthnasol i'r holl bobl a'r cyrff hynny sy'n ymwneud mewn unrhyw ffordd â threfnu i blant gyfranogi mewn perfformiadau llwyfan, teledu, ffilm neu berfformiadau eraill, yn ogystal â'r rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon neu fodelu â thâl, os yw'r plentyn yn byw yng Nghymru neu os yw'r perfformiad neu weithgaredd yn digwydd yng Nghymru.

3. Mae hyn yn golygu bod y canllawiau'n darparu fframwaith i'r canlynol:

- y rheini sy'n gyfrifol am drefnu perfformiadau proffesiynol neu amatur sy'n cynnwys plant, gan gynnwys ysgolion, grwpiau ieuencid a chyrrff gwirfoddol eraill;
- cwmnïau theatr, hyrwyddwyr, asiantau ac eraill sy'n ymwneud â gweithio gyda phlant mewn cynyrchiadau proffesiynol;
- pobl sy'n cyflogi plant mewn gweithgareddau â thâl neu waith modelu â thâl;
- rhieni a gofalmwyr plant sy'n ymwneud â'r perfformiadau a'r gweithgareddau hyn;
- pobl sy'n gweithredu fel hebryngwyr i blant sy'n ymwneud â'r perfformiadau a'r gweithgareddau hyn;
- awdurdodau lleol;
- ysgolion a darparwyr addysg eraill;
- llysoedd ynadon.

### **Beth sydd wedi newid?**

4. Mae'r prif newidiadau ers y trefniadau diwethaf fel a ganlyn:

- does dim angen tystysgrif feddygol fel mater o drefn cyn caniatáu trwydded;
- mae gan hebryngwr yr hawl i amrywio'r amser mae plentyn yn gorffen hyd at awr, ac yna bydd yn hysbysu'r awdurdod lleol am y newid hwn;

- mae'r amseroedd y caiff gwahanol oedrannau weithio wedi'u symleiddio, gan ddiddymu'r gwahaniaethau rhwng perfformiadau llwyfan a rhai i'w darlledu.

### **Beth sy'n cael ei gynnwys?**

5. Mae'r canllawiau hyn yn cynnig cyngor ynglŷn â phryd mae angen a phryd nad oes angen trwydded. Nodir yr wybodaeth sydd ei hangen i gael trwydded, y rheolau ar gyfer caniatáu trwydded a'r amodau sy'n rhaid eu cadw. Esbonnir pwy ddylai ymgeisio am drwydded a phwy sy'n gyfrifol am wneud yn siŵr fod telerau trwydded yn cael eu bodloni, ynghyd â'r swyddogaethau sydd gan awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru wrth ddyroddi a goruchwylio trwyddedau. Mae rhai amodau'n gymwys i bob perfformiad a gweithgaredd sy'n cynnwys plant, hyd yn oed os nad oes angen trwydded.

6. Mae'r canllawiau'n gymwys i blant sy'n byw yng Nghymru ac a fydd yn cymryd rhan mewn perfformiad neu weithgaredd ym Mhrydain Fawr (Cymru, Lloegr a'r Alban), oherwydd bydd angen cyflwyno ceisiadau am drwyddedau ar gyfer y plant hyn i awdurdodau lleol yng Nghymru. Maen nhw hefyd yn ymdrin â phlant sy'n byw yng Nghymru a fydd yn perfformio dramor (y tu allan i Brydain Fawr ac Iwerddon). Nid oes angen i blant sy'n bwriadu perfformio yn Iwerddon gael trwydded gan awdurdod lleol yn y DU ond bydd rhaid cydymffurfio â gofynion lleol. Maen nhw hefyd yn cynnwys sefyllfaoedd lle mae'r plant fel arfer yn byw y tu allan i Brydain Fawr ond bod y person neu'r sefydliad sy'n trefnu'r gweithgareddau wedi'i leoli yng Nghymru, gan fod ceisiadau'n gorfod cael eu cyflwyno i'r awdurdod lle mae'r person neu'r sefydliad hwnnw wedi'i leoli.

7. Mae'r canllawiau hefyd yn egluro swyddogaeth hebryngwyr (pobl sydd wedi'u cymeradwyo gan yr awdurdod lleol i ofalu am blant sy'n cymryd rhan mewn perfformiadau neu weithgareddau) a'r gofynion sydd angen iddyn nhw eu bodloni er mwyn cael eu cymeradwyo, a'r rheolau am addysg, seibiannau a phrydau bwyd plant. Hefyd esbonnir yr hawl sydd gan hebryngwyr i newid rhai o'r rhain, fel estyn yr amser gorffen hwyrach os oes angen.

### **Pam fod hyn wedi newid?**

8. Bu Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar drefniadau perfformiadau plant yn 2012 (ar y cyd â Llywodraeth y DU) ac yn 2014. Buom yn ystyried yr ymatebion gan gydbwyso eu barn a sicrhau mai diogelu plant yn effeithiol oedd ein prif amcan. Rydym ni hefyd wedi ceisio diwallu'r angen am hyblygrwydd ac eglurder, ond nid ar draul diogelu effeithiol. Rydym ni hefyd wedi ystyried yr angen i bobl ar draws y DU weithio yng Nghymru a gweithio trawsffiniol gyda gwledydd eraill y DU.

9. O ganlyniad, mae'r Rheoliadau newydd wedi'u llunio i gymryd lle'r rhai a luniwyd yn gyntaf yn 1968 ac a ddiwygiwyd yn 1998 a 2007 i gryfhau diogelu mewn ymateb i argymhellion adroddiad Clywch (2004). Mae'r Rheoliadau yn egluro'r rheolau fel y maen nhw'n gymwys i Gymru yn fanwl a nod y canllawiau hyn yw egluro sut y dylid eu trosi'n ymarfer i wahanol bobl ar wahanol adegau.

### **Pryd fydd y trefniadau hyn yn dod i rym?**

10. Bydd y Rheoliadau'n dod i rym yng Nghymru ar 30 Hydref 2015 a rhaid eu defnyddio i benderfynu ar bob cais am drwydded a ddaw i law ar y dyddiad hwnnw neu'n ddiweddarach. Bydd y rhain yn parhau mewn grym hyd nes y ceir unrhyw ddiwygiad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

### **Beth yw ystyr rhai geiriau penodol?**

11. Yn y canllawiau, mae'r ystyron canlynol i'r geiriau neu ymadroddion sy'n dilyn:

**plentyn** neu **blant** yw person neu bersonau rhwng geni ac oed gadael ysgol (sef y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin cyhyd ag y byddan nhw'n 16 oed erbyn diwedd gwyliau haf y flwyddyn ysgol honno);

**awdurdod lleol**, yng Nghymru, yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol fel y'i diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, neu yn Lloegr neu'r Alban, awdurdod fel y'i diffinnir gan y ddeddfwriaeth berthnasol;

**Deddf 1933** yw Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933, fel y'i diwygiwyd;

**Deddf 1963** yw Deddf Plant a Phobl Ifanc 1963, fel y'i diwygiwyd;

**Rheoliadau** yw Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Cymru) 2015.

### **Pam fod angen i mi ddilyn y trefniadau hyn?**

12. Mae'r Rheoliadau yn gosod fframwaith cyfreithiol ar gyfer gweithredu'r trefniadau hyn sydd wedi'u cynllunio i sicrhau bod plant yng Nghymru yn gallu manteisio ar gyfleoedd priodol, gan sicrhau eu bod yn cael eu diogelu'n effeithiol wrth gymryd rhan mewn perfformiadau a gweithgareddau.

13. Mae achosi, gwneud neu ganiatáu i blentyn gymryd rhan mewn perfformiad heb drwydded pan fydd angen un yn drosedd. Mae methu â glynu wrth unrhyw amod mewn trwydded neu fethu â chadw a chynhyrchu cofnodion cywir hefyd yn droseddau. Gallai unrhyw rai o'r troseddau hyn arwain at ddirwy neu garchar.



# 1. Pryd fydd angen trwydded?

## Crynodeb

Gallai fod angen trwydded ar gyfer bron unrhyw berfformiad neu weithgaredd sy'n cynnwys plant, gan gynnwys os yw'r plentyn yn cael ei dalu a phan gaiff perfformiad ei ddarlledu'n fyw neu ei recordio i'w ddangos yn y dyfodol. Mewn rhai achosion, fel perfformiadau a drefnir gan ysgolion neu lle nad oes neb yn cael ei dalu, efallai na fydd angen trwydded neu gellir gwneud cais am gymeradwyaeth gyffredinol.

## Mathau o berfformiad/gweithgaredd

1.1 Nod trwydded yw diogelu unrhyw blentyn dan oedran ysgol gorfodol sy'n cymryd rhan mewn perfformiad neu weithgaredd - sydd fel arfer yn golygu nad yw'r plentyn wedi cyrraedd y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin ac y bydd yn 16 erbyn diwedd gwyliau haf y flwyddyn ysgol honno. Mae hyn yn cynnwys perfformiadau gan grwpiau amatur, ysgolion a myfyrwyr, yn ogystal â rhai gan hyrwyddwyr, theatrau neu gwmnïau proffesiynol.

1.2 Mae'r angen am drwydded yn dibynnu ar yr hyn sy'n cael ei drefnu, ac nid ar bwy sy'n trefnu'r perfformiad neu weithgaredd. Y prif ffactorau yw a oes taliadau'n cael eu gwneud (gan y gynulleidfa) neu eu derbyn (gan y plentyn); y lleoliad ble cynhelir y perfformiad; ac a yw'n cael ei ffilmio neu ei recordio ar gyfer y teledu, radio, rhyngrwyd neu ffilm. Mae'r rhain yn cynnwys:

- unrhyw berfformiad lle codir tâl mynediad neu dâl am reswm arall;
- unrhyw berfformiad ar safle sydd â thrwydded i werthu alcohol (hyd yn oed os yw'r bar ar gau yn ystod y perfformiad);
- unrhyw berfformiad byw a ddarlledir (gan gynnwys teledu, radio a ffrydio rhyngrwyd);
- unrhyw berfformiad sy'n cael ei recordio i'w ddefnyddio mewn darllediad neu ffilm a gaiff ei weld gan y cyhoedd (gan gynnwys recordiad sain neu awdio a osodir ar wefan neu berfformiad a gaiff ei recordio i'w ddangos mewn sinema neu fel rhan o ffilm);
- gweithgaredd lle mae plant yn cymryd rhan mewn chwaraeon neu foddelu ac y gwneir taliad, ar wahân i dreuliau (pwy bynnag sy'n derbyn y taliad).

oni bai bod eithriad yn gymwys. Mae Atodiad B yn helpu i egluro pa fathau o berfformiadau neu weithgareddau a allai fod angen trwydded i ganiatáu i blentyn gymryd rhan, a pha rai na fyddai ei hangen.

1.3 Hyd yn oed os yw rhywun sy'n trefnu perfformiad neu weithgaredd yn meddwl y gall ddefnyddio un o'r eithriadau, dylai siarad yn gyntaf gyda'r awdurdod lleol i drafod y manylion a'u hysbysu am y digwyddiad arfaethedig. Bydd hyn yn helpu'r trefnwyr i sicrhau a oes angen – neu nad oes angen – iddyn nhw ymgeisio am drwydded, ac yn helpu awdurdodau lleol i wneud yn siŵr fod yr holl blant dan sylw'n cael eu diogelu'n briodol. Hyd yn oed os nad oes angen trwydded, ceir rheolau sy'n gymwys i bob perfformiad sy'n cynnwys plant yn ymwneud â pha mor hir y gallant gymryd rhan mewn perfformiad neu weithgaredd, pa mor hir y cânt aros yno, a'r hyd gofynnol ar gyfer eu seibiannau. Mae'r rhain i'w gweld ym Mhennod 3 ac Atodiad B.

## Eithriadau

1.4 Ni fydd angen trwydded ar rai mathau o berfformiad, ond bydd yr eithriadau hyn yn gymwys dim ond pan nad oes taliad yn cael ei wneud i (neu mewn perthynas â) unrhyw blentyn neu blant sy'n cymryd rhan yn y perfformiad (pwy bynnag sy'n cymryd y taliad). Y rhain yw:

- perfformiad a drefnir gan ysgol;
- mae'r plentyn wedi perfformio am lai na phedwar diwrnod yn ystod y chwe mis diwethaf (y Rheol Pedwar Diwrnod);
- does dim plentyn yn derbyn tâl a gall y trefnydd ymgeisio am gymeradwyaeth dorfol (*Body of Persons Approval*).

## Ysgolion

1.5 Efallai na fydd angen trwydded ar berfformiad:

- a) os yw'n cael ei drefnu gan ysgol – sefydliad addysgol sy'n darparu addysg gynradd neu uwchradd, yn hytrach nag ysgol ddawns neu debyg; ac
- b) os yw'r ysgol yn gyfrifol am gynhyrchu'r perfformiad, a allai gynnwys plant o'r ysgol honno neu ysgol arall.

Mae'r tabl isod yn dangos pryd fyddai perfformiad yn diwallu'r meini prawf ar gyfer yr eithriad hwn – a phryd na fyddai.

Pwy sy'n gwneud y trefniadau?	Oes angen trwydded?
Ysgol y plentyn	Nac oes
Ysgol arall nad yw'r plentyn yn ei mynychu fel: <ul style="list-style-type: none"><li>• ysgol celfyddydau perfformio sydd hefyd yn darparu prif addysg plentyn; ac</li><li>• ysgol sy'n darparu prif addysg plentyn, yn gweithio ochr yn ochr ag ysgol celfyddydau perfformio.</li></ul> Ni fyddai'r eithriad hwn yn cael ei effeithio gan ddarlledwr yn ffilmio'r digwyddiad fel rhan o ddogfen arsylwadol – ar yr amod nad yw'r darlledwr yn dweud wrth y plant beth i'w wneud.	Nac oes
Ysgolion dawn a thebyg lle mae'r plentyn yn mynychu i gael hyfforddiant yn y gweithgaredd hwnnw'n unig (ac nid lle mae'n derbyn ei brif addysg)	Oes (a chymryd nad oes unrhyw eithriad arall yn gymwys)
Person / corff arall Er enghraifft, os yw plant o ysgol yn cymryd rhan mewn perfformiad a drefnwyd gan ddarlledwr	Oes (a chymryd nad oes unrhyw eithriad arall yn gymwys)

## **Y rheol pedwar diwrnod**

1.6 Nid oes angen trwydded ar blentyn nad yw wedi perfformio ar fwy na thri diwrnod yn y chwe mis diwethaf ar gyfer un diwrnod arall o berfformio. Unwaith i blentyn berfformio ar bedwar diwrnod neu fwy mewn cyfnod o chwe mis, yna bydd angen trwydded (oni bai bod eithriad arall yn gymwys). Mae hyn yn cynnwys unrhyw berfformiad, â thâl neu beidio, boed gan y plentyn drwydded ar gyfer unrhyw rai o'r dyddiau hynny neu os oedd yn rhan o gymeradwyaeth dorfol (gweler isod) ai peidio. Bydd angen 'sail resymol' i gredu nad yw'r plentyn wedi perfformio ar fwy na thri diwrnod yn ystod y chwe mis diwethaf. Llythyr gan riant y plentyn yn cadarnhau hyn fyddai'r dull gorau, a gellid ceisio cyngor hefyd gan yr awdurdod trwyddedu.

1.7 Os oes angen i'r plentyn fod yn absennol o'r ysgol i gymryd rhan yn y perfformiad ni ellir dibynnu ar yr esemptiad hwn a bydd angen trwydded.

## **Cymeradwyaeth Dorfol (*Body of Persons Approval*)**

1.8 Mewn rhai achosion gall trefnydd wneud cais am gymeradwyaeth dorfol oddi wrth yr awdurdod lleol lle mae'r perfformiad(au) yn digwydd. Mae hyn yn cwmpasu'r holl blant mewn un gymeradwyaeth, yn hytrach na thrwyddedau unigol i bob plentyn sy'n cymryd rhan. Gall y trefnydd wneud cais am gymeradwyaeth dorfol ar gyfer perfformiad penodol neu am gyfnod cyfyngedig o amser i gyflwyno perfformiadau gyda phlant. Mae hefyd yn fwy hyblyg gan nad oes angen enwau'r plant unigol, sy'n caniatáu i blant ymuno ar fyr rybudd neu adael os yw ymrwymadau eraill yn rhy feichus.

1.9 Gall cymeradwyaeth dorfol fod yn opsiwn da i grwpiau amatur y gallai'r broses drwyddedu fod yn rhy feichus a chostus fel arall, i'r graddau y gallai plant gael eu hamddifadu o gyfleoedd da. Gall hyn hefyd fod yn briodol i fathau eraill o gyrff: y gofyniad allweddol yw nad yw'r plant yn cael eu talu (ac na fyddai disgwyl hynny'n arferol) a bod y corff yn gallu dangos bod ganddo systemau cadarn ac effeithiol i ddiogelu plant yn ystod ymarferion a pherfformiadau.

1.10 Dylid cyflwyno ceisiadau am gymeradwyaeth dorfol i'r awdurdod lleol lle bydd y perfformiad yn digwydd a dylai ymgeiswyr gyflwyno cymaint ag sy'n bosibl o wybodaeth i'r awdurdod. Gall yr awdurdod osod amodau os yw'n teimlo bod angen hyn i sicrhau lles y plant a gall dynnu cymeradwyaeth yn ôl os na chaiff y rhain eu bodloni.

1.11 Efallai na fydd gan y trefnydd yr holl wybodaeth wrth ymgeisio am gymeradwyaeth dorfol, fel y nifer y plant fydd yn cymryd rhan mewn digwyddiad agored. Dylai ymgeiswyr ddarparu'r holl wybodaeth sydd ganddyn nhw, egluro pam fod hyn yn gyfyngedig, a phryd y gallai'r gweddill fod ar gael. Yn yr achosion hynny, mae'n well ymgeisio mor fuan â phosibl i ganiatáu amser rhesymol i'r awdurdod lleol asesu unrhyw gais - a rhag ofn y bydd angen rhagor o wybodaeth cyn caniatáu cymeradwyaeth. Os nad oes modd darparu'r wybodaeth o flaen llaw, gall yr awdurdod roi cymeradwyaeth ar yr amod y bydd yr wybodaeth yn dod i law cyn gynted ag y bydd ar gael, hyd yn oed os yw hynny ar ôl y digwyddiad.

1.12 Os yw cais am gymeradwyaeth dorfol yn cynnwys nifer fawr o blant dros nifer sylweddol o ardaloedd awdurdodau lleol, mewn rhai amgylchiadau gallai Gweinidogion Cymru ystyried y cais. Ond yn y mwyafrif o achosion mae awdurdodau lleol mewn gwell sefyllfa i farnu'r anghenion a'r trefniadau ar gyfer diogelu'r plant dan sylw ac ni fyddai Gweinidogion Cymru'n disgwyl derbyn ceisiadau'n rheolaidd.

## **2. Beth am addysg a'r ysgol?**

### **Crynodeb**

Rhaid sicrhau nad yw cymryd rhan mewn perfformiad neu weithgaredd yn effeithio'n negyddol ar addysg plentyn. Rhaid i benaethiaid ymwneud ag unrhyw geisiadau am drwyddedau i blant sy'n mynychu eu hysgol ac mae angen eu caniatâd pryd bynnag y bydd plentyn yn colli'r ysgol i gymryd rhan mewn unrhyw berfformiad neu weithgaredd.

### **Absenoldeb o'r ysgol**

2.1 Dylai pob plentyn fynychu'r ysgol ar bob cyfle er mwyn cael y cyfle i gyflawni eu potensial llawn. Mae'r cysylltiadau rhwng presenoldeb a chyflawniad yn gryf iawn ac mae'r rhai sy'n colli cyfnodau sylweddol o ysgol yn llai tebygol o gyrraedd y lefelau a'r cymwysterau disgwylidig. Mae presenoldeb hefyd yn allweddol i lwyddiant yr ysgol gyfan, yn ogystal â'r unigolyn. Rhaid i benaethiaid ystyried llesiant y plentyn, y dosbarth a'r ysgol pan ddaw cais i ganiatáu i blant fod yn absennol. Nid yw'n ofynnol iddyn nhw i ganiatáu i blant fod yn absennol os mai eu teimlad yw y byddai'n niweidiol i'w haddysg a'u cyfleoedd i gyflawni eu lefelau disgwylidig o gyrraedd addysgol.

2.2 Er bod cyfleoedd i gymryd rhan mewn perfformiadau neu weithgareddau eraill yn bwysig, ni ddylid eu hystyried yn fwy pwysig nag addysg y plentyn. Rhaid i drefnydd unrhyw berfformiad neu weithgaredd wneud yn siŵr fod y plant dan sylw'n parhau i gael addysg addas yn ystod y cyfnod pan fyddan nhw'n cymryd rhan.

### **Llythyr y Pennaeth**

2.3 Mae cynnwys ysgol y plentyn neu'r plant yn y trefniadau'n hanfodol. Rhaid i awdurdod lleol beidio â chaniatáu trwydded oni bai ei fod wedi derbyn llythyr gan bennaeth ysgol y plentyn yn cadarnhau na fydd ei addysg yn dioddef. Nid yw hyn yn ymwneud â cholli ysgol yn unig – er bydd cynnal presenoldeb da yn rhan o ystyriaeth y pennaeth o'r cais – ond unrhyw beth a allai gael effaith niweidiol ar ddysgu'r plentyn, fel nosweithiau hwyr rheolaidd, diffyg amser i gwblhau gwaith cartref, neu bethau eraill a allai amharu ar addysg neu lesiant ehangach y plentyn.

2.4 Dylai'r ymgeisydd gyflwyno'r llythyr i'r awdurdod gyda'r ffurflen gais, felly dylid cysylltu â phennaeth y plentyn cyn gynted â phosibl i ganfod unrhyw bryderon a allai fod o ran y cais. Yr unig eithriad yw os yw'r awdurdod yn cytuno nad yw'n bosibl neu'n ymarferol cael llythyr o'r fath (fel pan fydd cais yn cael ei gyflwyno yn ystod gwyliau haf yr ysgol ac nad yw'n cynnwys amser allan o'r ysgol) ond nid yw hynny'n cynnwys amgylchiadau lle gellid bod wedi cael llythyr pe bai'r cais wedi'i gynllunio'n well.

### **Ceisiadau am drwydded a chymeradwyo absenoldeb**

2.5 Os yw cais am drwydded yn nodi y bydd angen y plentyn ar ddyddiadau penodol, rhaid i'r cais hefyd gynnwys, fel rhan o'r llythyr oddi wrth bennaeth yr ysgol, caniatâd penodol i'r plentyn fod yn absennol o'r ysgol ar y dyddiadau hynny.

2.6 Os nad yw'r drwydded yn pennu dyddiadau (trwydded agored) yna rhaid i'r plentyn gael cytundeb y pennaeth (a gyflwynir gyda'r cais) y caiff gollu'r ysgol i gymryd rhan. Bydd rhaid i'r plentyn gael caniatad gan y pennaeth ar gyfer pob achlysur y bydd y plentyn allan o'r ysgol. Waeth pa fath o ysgol yw hi, y pennaeth bob amser sy'n penderfynu a yw plentyn yn cael colli ysgol, ac nid yr awdurdod lleol.

2.7 Ni ddylai unrhyw blentyn gymryd rhan mewn perfformiad, ymarfer neu weithgaredd yn ystod oriau ysgol heb gytundeb y pennaeth. Byddai gwneud hynny'n "absenoldeb heb ei awdurdodi" ac mae absenoldebau rheolaidd heb eu hawdurdodi'n debygol o olygu camau gweithredu gan yr ysgol a'r awdurdod lleol yn erbyn y rhieni, sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol i sicrhau bod eu plentyn yn mynychu'r ysgol.

### **Perfformiadau eraill**

2.8 Os oes angen i blentyn gollu ysgol ar gyfer unrhyw ddigwyddiad, yna mae angen caniatâd y pennaeth. Os yw'r pennaeth wedi cydsynio i'r absenoldeb mewn cais am drwydded, yna bydd hyn fel arfer yn ddigon cyhyd â bod y pennaeth yn cytuno â'r dyddiadau penodol y bydd y plentyn yn absennol.

2.9 Ar gyfer ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol ac ysgolion arbennig nas cynhelir gan yr awdurdod lleol, ni chaiff plentyn fod yn absennol o'r ysgol er mwyn perfformio neu gymryd rhan mewn chwaraeon neu fodelu cyflogedig oni bai bod trwydded wedi'i gael gan awdurdod lleol y plentyn. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu, oni bai bod y perfformiad neu'r gweithgaredd yn digwydd y tu allan i oriau ysgol (er enghraifft ar y penwythnos neu yn ystod y gwyliau), ni chaiff plentyn ddibynnu ar un o'r esementau yn adran 37(3) er mwyn perfformio, gan mai dim ond ar gyfer perfformiad neu weithgaredd y mae trwydded ar ei gyfer y caiff Pennaeth awdurdodi absenoldeb plentyn.

### **Addysg y tu allan i'r ysgol**

2.10 Mae'n hanfodol nad yw addysg plentyn yn dioddef o ganlyniad i gymryd rhan mewn perfformiad neu weithgaredd. I lawer o blant, mae'n bosibl y bydd eu hamser allan o'r ysgol yn eithaf byr, ond i eraill gallai'r ymrwymiad amser i ffwrdd o'r ysgol fod yn sylweddol a mynych. Rhaid i awdurdod lleol beidio â chytuno i roi trwydded os yw'n meddwl y gallai addysg plentyn ddioddef drwy gymryd rhan yn y perfformiad neu weithgaredd. Os oes angen, rhaid i'r awdurdod hefyd egluro sut ac ymhle bydd plentyn yn derbyn addysg y tu allan i'r ysgol a bod yn fodlon y bydd yn addas i'r plentyn sy'n cael ei addysgu.

2.11 Rhaid i blant sy'n derbyn addysg breifat fel rhan o'u trwydded gael o leiaf y lleiafswm o addysgu - sy'n cyfateb i dair awr y dydd ar gyfer pob diwrnod ysgol arferol a gollir. Fodd bynnag gellir cronni hyn dros bedair wythnos (neu gyfanswm cyfnod y drwydded os yw'n llai na phedair wythnos) i ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd o ddydd i ddydd, gydag isafswm o chwe awr mewn unrhyw un wythnos ac uchafswm o bum awr mewn unrhyw ddiwrnod.

2.12 Nid oes amser penodol wedi'i osod ar gyfer gorffen unrhyw addysgu preifat. Fodd bynnag ni fyddai'n briodol i blentyn gael gwersi ar ddiwedd y dydd yn rheolaidd, pan fydd y perfformio neu'r ymarfer wedi gorffen, gan na fyddai'n debygol o fod mor barod i ddysgu pan fyddai wedi blino. Rhaid ystyried anghenion pob plentyn hefyd, yn hytrach na mynnu cadw at un dull sefydlog o addysgu. Fe all awdurdodau lleol osod amodau fel rhan o'r drwydded o ran sut y bydd addysgu preifat yn cael ei wneud er mwyn sicrhau bod addysg y plentyn yn parhau.

2.13 Mae'r holl amser a gaiff ei dreulio ar addysg yn cyfrif tuag at yr oriau a gaiff eu treulio yn y lleoliad perfformio neu ymarfer bob dydd: rhaid i'r rhain beidio â mynd dros yr uchafswm oriau a osodwyd ar gyfer y plentyn hwnnw yn y drwydded (gweler Atodiad C). Fodd bynnag, nid yw amser a gaiff ei dreulio yn yr ysgol neu leoliad dysgu arall nad yw wedi'i bennu yn y drwydded, fel amser mae'r plentyn yn ei dreulio yn yr ysgol cyn mynd i gymryd rhan yn y digwyddiad, neu unrhyw gyfnod o ddysgu sy'n 30 munud neu lai o hyd, yn cyfrif at y cyfanswm hwn.

### **Athrawon preifat**

2.14 Rhaid i'r addysg sy'n ofynnol yn ôl y drwydded gael ei chyflwyno gan athro preifat, er y gellid ei chyflwyno'n rhannol mewn ysgol gan athrawon yr ysgol os yw'r awdurdod yn cymeradwyo'r trefniadau. Rhaid i unrhyw athro preifat gael ei ystyried yn 'addas' gan yr awdurdod lleol sy'n caniatáu'r drwydded. Dylai'r awdurdod lleol ofyn am dystlythyrau, gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, tystiolaeth o brofiad, cymwysterau ac unrhyw beth arall sy'n dangos gallu ac addasrwydd i addysgu plant i'r lefel sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran a'u cyrhaeddiad.

### **3. Pa reolau sy'n gymwys i bob perfformiad, hyd yn oed heb drwydded?**

#### **Crynodeb**

Rhaid i unrhyw un sy'n trefnu perfformiadau wneud yn siŵr nad yw plentyn yn gweithio nac yn ymarfer yn hirach nag sy'n briodol i'w oed, pa un a oes angen trwydded ai peidio. Rhaid i blant hefyd gael seibiannau priodol yn ystod y dydd a thros nos.

#### **Pob perfformiad**

3.1 Mae rhai gofynion allweddol sy'n gymwys i unrhyw un sy'n trefnu perfformiadau sy'n cynnwys plant. Bydd y rhain yn gymwys i **bob** perfformiad, boed â thrwydded ai peidio, ac felly rhaid i bob cynhyrhydd a chorff eu dilyn ar bob achlysur, beth bynnag yw maint a natur y digwyddiadau.

#### **Amser yn cymryd rhan mewn perfformiad neu ymarfer bob dydd**

3.2 Mae'r prif gyfyngiadau amser sy'n gymwys i'r gwahanol grwpiau oedran i'w gweld yn Atodiad C. Mae'r rhain yn gymwys i bob plentyn ym mhob perfformiad – nid y rhai lle mae angen trwydded yn unig. Y cyfyngiadau yw'r uchafswm amser y gall plant fod yn bresennol, yn ymarfer neu'n perfformio yn lleoliad y perfformiad ac isafswm hyd y seibiannau yn ystod y dydd. Mae uchafswm yr amser y gellir ei dreulio'n ymarfer neu'n perfformio bob dydd yn derfyn ac nid yn darged. Rhaid i'r gwir amser a gaiff ei dreulio gan unrhyw blentyn yn ymarfer neu'n perfformio adlewyrchu ei oedran, sefyllfa a phrofiad, ynghyd ag ystyriaeth i iechyd, llesiant a ffitrwydd i gymryd rhan. Mae'r amser dechrau cynharaf a'r amser gorffen hwyraf hefyd yn derfynau felly, er enghraifft, nid oes rhaid gosod 7.00am fel amser arferol i blentyn gyrraedd am y dydd.

#### **Seibiannau**

3.3 Mae angen i blant gael seibiannau yn ystod y dydd a rhwng perfformiadau i orffwys ac ymadfer. Rhaid i seibiannau am brydau bwyd fod o leiaf 45 munud a rhaid i seibiannau eraill beidio â bod yn llai na 15 munud o hyd. Rhaid i'r plentyn gael o leiaf 1 awr 30 munud o seibiant rhwng pob perfformiad. Yr unig eithriad yw pan fydd y perfformiad cynharach yn fyrrach nag un awr

- gyda'r perfformiad neu ymarfer dilynol yn yr un lleoliad; NEU
- does dim angen amser i deithio rhwng perfformiadau neu ymarferion.

Mewn achos o'r fath, gellir lleihau'r seibiant i ddim llai na 45 munud. Efallai y bydd angen seibiannau hirach ar rai plant a dylid ystyried eu hanghenion wrth gynllunio amserlenni.

3.4 Rhaid i seibiannau dros nos fod o leiaf 12 awr ond dylai'r rhan fwyaf o blant fel arfer gael seibiant dros nos nad yw'n llai na 14 awr. Rhaid i drefnwyr wneud yn siŵr fod pob plentyn yn gallu gorffwysu'n iawn.



3.5 Nid yw amser yn yr adran colur neu wisgoedd, neu unrhyw fath arall o baratoi penodol neu gorfforol fel ymarferion cynhesu, yn cyfrif fel seibiant ond yn amser a gaiff ei dreulio'n ymarfer. Mae hynny'n golygu bod amser o'r fath yn ffurfio rhan o'r cyfanswm oriau a ganiateir yn y lleoliad perfformio neu ymarfer. Felly ni all amser yn yr adran colur neu wisgoedd, nac unrhyw fath arall o baratoi penodol neu gorfforol, ddigwydd cyn yr amseroedd a restrir yn Atodiad C neu fel y cytunir yn y drwydded.

3.6 Rhaid i unrhyw blentyn sy'n cymryd rhan mewn perfformiad beidio â chymryd rhan mewn unrhyw gyflogaeth arall ar ddiwrnod y perfformiad na'r diwrnod canlynol. Nid yw hyn yn ei atal rhag perfformio neu ymarfer ar ddau ddiwrnod yn olynol, na chymryd rhan mewn digwyddiadau cyhoeddusrwydd. Fodd bynnag mae'r cyfyngiad yn bodoli i ganiatáu i blant gael digon o orffwys pan na fyddan nhw'n ymarfer neu'n perfformio.

## 4. Beth mae trwydded yn ei gynnwys?

### Crynodeb

Dim ond pan fydd y plentyn yn cael ei ddiogelu'n briodol y gellir cytuno ar drwydded. Mae hyn yn golygu gofal priodol i iechyd ac addysg y plentyn a diogelu lles a llesiant y plentyn, gan gynnwys yr amser gweithio a theithio. Bydd awdurdodau lleol yn gorfod cael tystiolaeth fod yr holl faterion hyn wedi'u hystyried cyn cytuno i roi trwydded.

### Diogelu plant a'u haddysg

4.1 Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a chyn caniatáu trwydded rhaid i'r awdurdod fod yn fodlon:

- bod y plentyn yn ffit i gymryd rhan yn y perfformiad neu weithgaredd;
- bod darpariaeth briodol wedi'i gwneud i sicrhau iechyd a llesiant y plentyn;
- bod darpariaeth briodol i sicrhau na fydd addysg y plentyn yn dioddef.

4.2 Dim ond os yw'r amodau hyn yn cael eu bodloni y dylid rhoi trwydded. Os nad yw awdurdod yn fodlon, gall osod amodau ychwanegol neu wrthod rhoi trwydded.

### Polisi diogelu plant

4.3 Fel rhan o'r ddyletswydd hon, rhaid i'r unigolyn sy'n ymgeisio roi copi o bolisi diogelu plant y corff i'r awdurdod gyda'r cais. Dylai'r drwydded ei gwneud yn ofynnol iddyn nhw sicrhau bod y polisi'n cael ei ddilyn a bod y plentyn yn cael ei ddiogelu'n briodol ar bob achlysur.

### Amser yn ymarfer, perfformio ac yn y lleoliad perfformio

4.4 Mae cyfyngiadau ar yr amser y caiff unrhyw blant gymryd rhan mewn perfformiadau a gweithgareddau. Mae'r cyfyngiadau hyn a'r amseroedd dechrau cynharaf a gorffen hwyraf yn gymwys i blant mewn unrhyw berfformiadau, boed wedi'u trwyddedu ai peidio. Mae'r rhain wedi'u rhestru yn Atodiad C.

4.5 Mae ymarferion yn ystod y cyfnod perfformio'n dod dan y gofynion trwyddedu ac yn ddarostyngedig i'r un amodau a chyfyngiadau â pherfformiadau. Mae amser ymarfer yn cyfrif at yr uchafswm o oriau a ganiateir mewn diwrnod ar gyfer pob plentyn. Dylid ystyried amser cynhesu wrth asesu cyfanswm yr amser mae plentyn yn ei dreulio yn ymarfer.

4.6 Nid yw gofynion trwyddedu'n gymwys i ymarferion a gynhelir cyn y diwrnod perfformio cyntaf. Dylai awdurdod lleol serch hynny ystyried a fydd y cyfanswm o amser ymarfer cyn y diwrnod perfformio cyntaf yn cael effaith niweidiol ar addysg a llesiant y plentyn. Rhaid i'r cais am drwydded gynnwys manylion unrhyw ymarferion a gynhelir cyn y diwrnod perfformio cyntaf (dyddiadau, amseroedd, lleoliadau, hyd). Gall yr awdurdod osod amodau ychwanegol ar y drwydded os yw'n credu y gallai'r amserlen gyflawn, gan gynnwys yr ymarferion hynny, gael effaith negyddol ar y plentyn.

## **Hyd yr amser perfformio**

4.7 Caiff plant gymryd rhan mewn perfformiadau (gan gynnwys ymarferion) am uchafswm o chwe diwrnod yn olynol, er mwyn rhoi digon o amser iddyn nhw ymadfer a chael amser i ffwrdd o'r cynhyrchiad. Gall hyn barhau am wyth wythnos ar y mwyaf. Os yw plentyn yn gweithio am yr uchafswm hwn, rhaid cael o leiaf 14 diwrnod o seibiant cyn y perfformiad nesaf. Ni fydd y rheol hon yn gymwys os yw trwydded y plentyn yn pennu llai na 60 diwrnod o berfformio. Fodd bynnag, gall yr awdurdod benderfynu cyfyngu ar hyd amser perfformio unrhyw blentyn drwy osod amodau ar y drwydded os yw'n teimlo y byddai'r amserlen yn effeithio ar ei addysg neu lesiant.

## **Amser teithio**

4.8 Mae rhai plant yn teithio pellter sylweddol i gymryd rhan mewn perfformiad a dylai'r trefnwyr ganiatáu ar gyfer hynny wrth osod amserlen pob diwrnod perfformio. Dylai'r awdurdod ystyried amser teithio ac os oes angen, gosod amser dechrau a gorffen gwahanol i blentyn i ganiatáu ar gyfer teithio fel amod ar y drwydded.

## **Gweithio yn y nos**

4.9 Er bod amser dechrau cynharaf ac amser gorffen hwyr (gweler Atodiad C), caniateir i blentyn weithio yn y nos (hynny yw ar ôl yr amser gorffen hwyr a chyn yr amser dechrau cynharaf) os caiff cais ei gyflwyno i awdurdod lleol y plentyn. Llesiant y plentyn yw'r flaenoriaeth, felly mae gwaith o'r fath yn ddarostyngedig i gyfyngiadau.

4.10 Os yw plentyn yn mynd i weithio yn y nos:

- rhaid cyfrif yr amser a gaiff ei dreulio'n perfformio yn y nos o fewn y cyfanswm oriau perfformio neu ymarfer mewn un diwrnod, a rhaid peidio â mynd dros yr uchafswm ar gyfer yr oedran;
- os yw plentyn yn perfformio yn y nos, yna rhaid cael o leiaf 16 awr o seibiant cyn cymryd rhan mewn unrhyw ymarfer neu berfformiad arall;
- os yw plentyn yn perfformio yn ystod dwy noson yn olynol, rhaid peidio â gweithio yn y nos eto am saith diwrnod arall.

4.11 Er enghraifft, os yw'r awdurdod lleol yn cytuno bod plentyn 10 oed yn cael gweithio yn y nos, gallai weithio rhwng 0000 (hanner nos) a 0300 ar ddydd Mawrth. Byddai hyn yn golygu na fyddai ei amser yn ymarfer a pherfformio ar y diwrnod blaenorol (rhwng 0700 a 2300 ar ddydd Llun), yn gallu bod yn hirach na 6 awr a 30 munud (uchafswm yr amser a ganiateir yw 9 awr a 30 munud).

4.12 Ar ôl gorffen am 0300, ni fyddai'r un plentyn yn cael dychwelyd i'r gwaith tan 1900 ar y dydd Mawrth (16 awr yn ddiweddarach). Pe bai'n gwneud rhagor o waith y noson honno rhwng 2300 (Mawrth) a 0200 (Mercher), yna ni fyddai'r plentyn yn cael:

- dychwelyd i ymarfer neu berfformio cyn 1800 (Mercher)
- na gwneud unrhyw waith nos arall tan ar ôl 2300 ar y dydd Mercher canlynol (saith diwrnod yn ddiweddarach).

## 5. Beth yw rôl hebryngwr?

### Crynodeb

Mae hebryngwyr yn hanfodol ar gyfer sicrhau gofal priodol i blant sy'n cymryd rhan mewn perfformiadau. Rhaid i hebryngwyr weithredu er budd gorau'r plentyn ac felly rhaid iddyn nhw fod wedi'u hyfforddi'n briodol yn unol â threfniadau lleol. Hefyd mae gan hebryngwyr yr hawl i ganiatáu gweithio hirach os oes angen. Os ydyn nhw'n ymarfer yr hawl hon rhaid hysbysu'r awdurdod. Hefyd mae ganddyn nhw hawl i adolygu sgript perfformio i sicrhau ei fod yn addas, gan roi ystyriaeth i oedran y plentyn.

### Hebryngwyr

5.1 Rhaid i bob plentyn sy'n cymryd rhan mewn perfformiad neu weithgaredd dderbyn gofal priodol a goruchwyliaeth ar bob achlysur. Ni all rhieni wneud hyn bob amser, felly bydd yr awdurdod lleol yn cymeradwyo hebryngwyr i ofalu am y plentyn a'i fuddiannau tra bo'r plentyn yn cymryd rhan yn y perfformiad neu weithgaredd. Mae hyn yn gymwys os yw'r plentyn yn byw gartref neu os yw i ffwrdd o gartref am gyfnod. Prif flaenoriaeth yr hebryngwr bob amser yw buddiannau gorau'r plentyn dan ei ofal, gan gynnwys ei iechyd, llesiant ac addysg, drwy gydol cyfnod y perfformiad neu weithgaredd.

5.2 Mae angen hebryngwr os yw rhiant neu athro'r plentyn yn methu â goruchwyllo'r plentyn am gyfnod y perfformiad, ymarfer neu weithgaredd. Os yw'r plentyn dan oruchwyliaeth neu ofal un o'i rieni, neu un o'i athrawon arferol (er enghraifft yn ystod cynhyrchiad ysgol) yna nid oes angen hebryngwr. Fodd bynnag nid yw hyn yn gymwys i aelodau eraill o deulu'r plentyn. Os yw taid neu nain yn dod gyda phlentyn i ddigwyddiad, er enghraifft, bydd angen hebryngwr oni bai bod cyfrifoldeb rhiant gan y taid neu'r nain.

### Hyfforddiant ac addasrwydd

5.3 Dylai pobl sy'n dymuno cael eu cymeradwyo fel hebryngwyr gyflwyno cais i'r awdurdod lleol lle maen nhw'n byw. Rhaid i'r rheini sy'n ymgeisio i awdurdod lleol yng Nghymru am gymeradwyaeth fel hebryngwyr gael eu pennu'n addas gan yr awdurdod lleol hwnnw cyn gallu gweithredu unrhyw ddyletswyddau hebryngwr a hefyd ymgymryd â'r hyfforddiant diogelu plant priodol yn unol â threfniadau lleol. Caiff cynnwys ac amseru'r hyfforddiant hwn eu pennu gan yr awdurdod lleol dan eu polisi diogelu.

5.4 Bydd angen i'r awdurdod hefyd fod yn fodlon bod hebryngwr yn addas ac yn gymwys i gymryd gofal o'r plant. Mae hyn yn debygol o gynnwys tystlythyrau, gwiriad cyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, tystiolaeth o brofiad, cymwysterau ac unrhyw beth arall sy'n dangos gallu ac addasrwydd i ofalu am blant. Caiff hebryngwr fod yn gyfrifol am uchafswm o ddeuddeg plentyn ar y tro, neu, os yw hefyd yn gweithredu fel athro preifat, uchafswm o dri.

## **Dyletswyddau cyffredinol**

5.5 Unig ddyletswydd yr hebryngwr yw gofalu am y plentyn, sy'n dod uwchlaw unrhyw ddisgwyliadau neu ofynion eraill gan unrhyw unigolyn neu gyflogwr arall. Rhaid i'r hebryngwr weithredu fel pleidiwr ac eiriolwr ar ran y plentyn, gan wrthsefyll unrhyw gais nad yw ym marn yr hebryngwr er budd gorau'r plentyn neu a allai effeithio'n niweidiol ar ei iechyd, llesiant neu addysg. Mae hyn hefyd yn golygu y dylai'r plentyn fod yn gyfforddus gyda'r hebryngwr er mwyn gallu rhannu unrhyw bryderon. Rhaid i'r hebryngwr herio ymddygiad a gweithredoedd y mae'n teimlo eu bod yn amhriodol gyda phlant a mynegi unrhyw bryderon am iechyd, diogelwch a risg mewn unrhyw ran o'r perfformiad neu weithgaredd.

5.6 Bydd y rôl hon fel pleidiwr ar ran y plentyn yn golygu hefyd y bydd yr hebryngwr yn gwneud yn siŵr nad oes disgwyl i blentyn nad yw'n iach berfformio ac nad yw seibiannau yn cael eu herydu gan ofynion i fod yn barod ar unwaith pan fydd y seibiant yn dod i ben. Mae hefyd yn rôl diogelu plant: mae angen i hebryngwr sicrhau nad yw'r plant yn cael eu gadael gydag oedolion eraill (ar wahân i'w rhieni neu athro) a diogelu'r plant rhag cael eu gorfodi i wneud unrhyw beth nad ydyn nhw am ei wneud, naill ai fel rhan o'r perfformiad neu weithgaredd neu oddi ar y llwyfan.

5.7 Gan fod y rôl hon yn ymwneud yn llwyr â diogelu'r plant yn eu gofal, rhaid i hebryngwyr ymddwyn yn briodol wrth ofalu am y plant. Rhaid osgoi unrhyw weithred – fel yfed alcohol neu ysmegu ar ddyletswydd, bod dan ddylanwad alcohol wrth ofalu am blentyn, gwisgo dillad amhriodol neu ddefnyddio iaith amhriodol o flaen y plentyn – a allai fygwth llesiant y plentyn. Yn yr un modd, dim ond y swydd honno y gall hebryngwyr ei gwneud wrth ofalu am blant. Ni allan nhw fod yn aelodau o'r gynulleidfa, gweithio y tu ôl i'r llwyfan na chael eu cysylltu ag unrhyw weithgaredd sy'n gysylltiedig â'r perfformiad. Bydd angen i rieni sy'n gweithredu fel hebryngwyr hefyd ymgymryd â'r rôl honno'n unig pan fyddan nhw yn y lleoliad perfformio neu ymarfer: os ydyn nhw'n dymuno gwylio perfformiad yn lle aros gyda'r plentyn, bydd angen i hebryngwr arall aros gyda'r plentyn i fodloni anghenion y drwydded.

5.8 Dylai fod gan hebryngwyr restr o 'Gysylltiadau Allweddol' ar gyfer pob un o'r plant dan eu gofal. Dylai'r rhestr hon gynnwys rhieni/gofalwyr, awdurdod trwyddedu'r plentyn, yr awdurdod lle mae'r perfformiad neu weithgaredd yn digwydd, unrhyw asiantau a rheolwyr y cwmni sy'n trefnu'r digwyddiad. Dylen nhw gadw cyswllt agos â'r trefnydd a'r deiliad trwydded sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol am ddiogelu'r plentyn. Fe all yr hebryngwr sy'n gofalu am blentyn fod wedi derbyn cymeradwyaeth awdurdod lleol arall ar wahan i'r un a roddodd y drwydded ar gyfer y plentyn.

## **Sgriptiau**

5.9 Lle bo hyn yn cael ei ganiatáu gan y drwydded, caiff yr hebryngwr wneud cais i weld y copi diweddaraf o'r sgript sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y perfformiad, er mwyn gallu cadarnhau ei fod yn briodol i'r plentyn. Bydd yr hyn sy'n briodol yn amrywio yn ôl y plentyn, ei oed a'r cynhyrchiad ei hun. Dylai hebryngwyr godi unrhyw bryderon gyda'r cynhyrchwyr er mwyn diogelu'r plant yn eu gofal: os na chaiff eu pryderon eu datrys, dylai'r hebryngwr gysylltu ag awdurdod lleol y plentyn i hysbysu'r awdurdod am y pryderon.

## **Hawl i amrywio amseroedd gorffen**

5.10 Caiff yr hebryngwr benderfynu a gaiff plentyn weithio y tu hwnt i'r amser gorffen hwyrach ai peidio mewn rhai amgylchiadau eithriadol. Ambell waith bydd cynhyrchiad theatr yn gor-redeg neu bydd y ffilmio'n gorfod oedi am resymau technegol, sy'n golygu bod angen y plentyn yn hwyrach nag y mae'r Rheoliadau neu'r drwydded yn ei ganiatáu. Yn y sefyllfaoedd hyn, gall yr hebryngwr gytuno i estyniad o un awr ar y mwyaf, cyhyd ag y bo'n fodlon na fydd llesiant y plentyn yn cael ei effeithio ac nad yw cyfanswm amser y plentyn ar y diwrnod hwnnw (gan gynnwys yr amser ychwanegol a gytunwyd) yn uwch na'r uchafswm a ganiateir. Yna rhaid i'r hebryngwr hysbysu'r awdurdodau lleol perthnasol (y rhai sydd wedi rhoi'r trwyddedau ar gyfer y plant dan sylw a'r awdurdod lle mae'r digwyddiad yn cael ei gynnal) bod yr estyniad wedi'i gytuno a'r rhesymau dros gytuno.

5.11 Mae'r hawl hwn wedi'i gynllunio ar gyfer defnydd achlysurol yn unig, pan fydd amgylchiadau anarferol neu annisgwyl yn peri oedi i'r cynhyrchiad. Dylai hebryngwyr ystyried cais am estyniad mewn sefyllfaoedd eithriadol yn unig. Ni ddylid ei ddefnyddio'r rheolaidd nac i wneud yn iawn am amserlennu gwael ar ran trefnwyr y digwyddiad. Byddai'n rhesymol i awdurdod lleol ofyn am ragor o wybodaeth neu gwestiynu'r nifer o estyniadau a ganiateir os yw'n ystyried bod y ddarpariaeth hon yn cael ei defnyddio'n rhy aml.

5.12 Caiff yr hebryngwr hefyd gytuno i gwtogi un o'r seibiannau bwyd i ddim llai na 30 munud os yw'r perfformiad neu ymarfer yn yr awyr agored. Unwaith eto, disgwylir mai digwyddiad achlysurol yn unig yw hwn.

## **6. Sut mae ymgeisio am drwydded?**

### **Crynodeb**

**Dim ond person sydd â chyfrifoldeb am wneud yn siŵr fod plentyn yn cael ei ddiogelu'n briodol sy'n cael ymgeisio am drwydded. Dylid cyflwyno ceisiadau am berfformiadau ym Mhrydain Fawr i'r awdurdod lleol lle mae'r plentyn yn byw fel arfer. Nid oes angen tystysgrif meddyg fel arfer**

### **Person cyfrifol**

6.1 Rhaid i'r cais ddod oddi wrth y person neu'r corff sydd â chyfrifoldeb am drefnu, cynhyrchu neu redeg y gweithgaredd neu'r perfformiad y bydd y plentyn yn cymryd rhan ynddo. Rhaid cyflwyno'r cais yn ysgrifenedig i'r awdurdod lleol perthnasol o leiaf 21 diwrnod cyn bod angen y drwydded. Os caiff llai o rybudd ei roi, mae gan yr awdurdod yr hawl i wrthod trwydded ar y sail nad oes digon o amser i gyflawni ei ddyletswyddau. Os caiff y drwydded ei chaniatáu, bydd yr ymgeisydd yn gyfrifol yn ôl y gyfraith am sicrhau bod yr holl amodau'n cael eu bodloni a bod y plentyn yn cael ei ddiogelu'n briodol.

6.2 Mae'n bosibl i asiant ymgeisio am drwydded ar ran y plentyn os yw'r plentyn yn mynd i fod yn cymryd rhan mewn digwyddiad modelu ac os yw'r plentyn, neu rywun arall ar ei ran, yn derbyn tâl. Fodd bynnag ni chaiff asiant ymgeisio am drwydded o'r fath os yw'r plentyn yn mynd i gymryd rhan mewn 'perfformiad' (gweler pennod 1 ac Atodiad B).

6.3 Ni chaiff person neu gorff nad yw'n gyfrifol am y perfformiad neu weithgaredd hwnnw ac felly na all wneud yn siŵr fod y plentyn yn cael ei amddiffyn a'i ddiogelu drwy gydol y gweithgaredd ymgeisio am na chael trwydded.

### **Awdurdod lleol cyfrifol**

6.4 Os yw'r plentyn yn byw fel arfer ym Mhrydain Fawr (Cymru, Lloegr a'r Alban), dylid cyflwyno'r cais i'r awdurdod lleol lle mae'n byw. Mae gan Loegr a'r Alban brosesau ymgeisio gwahanol, ond tebyg, ar gyfer plant sy'n byw yno. Bydd y cais yn cael ei ystyried gan swyddog trwyddedu, a ddylai fod wedi ymgymryd â hyfforddiant diogelu plant priodol yn unol â threfniadau lleol.

6.5 Os yw'r plentyn yn byw fel arfer y tu allan i Brydain Fawr – sy'n golygu unrhyw un o Ogledd Iwerddon yn ogystal ag unrhyw un sy'n byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig – yna dylid cyflwyno'r cais i'r awdurdod lleol lle mae'r person cyfrifol yn byw neu'n gweithio (y 'lleoliad busnes').

### **Gwybodaeth angenrheidiol**

6.6 Mae'r wybodaeth sydd ei hangen i gael trwydded yn rhannu'n ddwy adran – gwybodaeth am y plentyn a gwybodaeth am y perfformiad neu weithgaredd. Rhestrir hyn yn Atodiad D, sy'n gosod yr wybodaeth sydd ei hangen ac arweiniad ar beth y dylid ei gynnwys yn y cais.

6.7 Does dim angen tystysgrif feddygol bellach fel rhan o bob cais. Fodd bynnag efallai y bydd awdurdod lleol yn gwneud cais am archwiliad meddygol ar y plentyn cyn caniatáu trwydded.

## **Llofnodion**

6.8 Rhaid i'r ymgeisydd a rhiant y plentyn lofnodi'r ffurflen gais.

## **Asesu risg**

6.9 Fel rhan o'u gwaith yn sicrhau bod plant yn cael eu diogelu'n effeithiol, dylai ymgeiswyr fod wedi cynnal asesiadau risg mewn nifer o feysydd i wneud yn siŵr fod plant yn cael eu hamddiffyn yn briodol. Bydd y rhain yn cynnwys diogelwch corfforol ar y llwyfan, risgiau iechyd a phwysau gwaith ar y plant, yn ogystal â materion diogelu ac amddiffyn plant ehangach. Dylid cynnwys yr asesiadau risg hyn gyda'r cais a'r polisi amddiffyn plant. Dylai'r awdurdod lleol godi unrhyw bryderon cyn cytuno i ganiatáu trwydded.

## **Diogelwch gwybodaeth a diogelu data**

6.10 Bydd pob cais a thrwydded yn cynnwys data personol ar blant 16 oed neu iau. Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn ei gwneud yn ofynnol i bawb sy'n ymwneud â chasglu a defnyddio'r data hwn sicrhau bod mesurau priodol yn weithredol i'w ddiogelu rhag cael ei gamddefnyddio neu ei golli. Mae hyn yn golygu bod rhaid defnyddio lefelau priodol o ddiogelu i gadw'r wybodaeth yn ddiogel. Ceir rhagor o wybodaeth gan [Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#).

6.11 Bydd angen i unrhyw un sy'n anfon cais wneud yn siŵr ei fod yn ddiogel rhag rhyng-gipio neu ymyrraeth. Mae'r Post Brenhinol a chwmnïau post eraill yn cynnig gwasanaethau tracio parseli a gwasanaethau llofnodi eraill sy'n cynnig diogelwch ychwanegol. Yn yr un modd, rhaid sicrhau lefelau priodol o ddiogelwch wrth roi trwyddedau, boed drwy'r post neu os cânt eu casglu.

6.12 Rhaid anfon unrhyw ebost i gyfeiriad diogel yn yr awdurdod lleol priodol. Ni ddylid defnyddio cyfeiriadau ymholi cyffredinol a chyfeiriadau ebost ag enw, oni bai bod cadarnhad eu bod yn ddiogel, ar gyfer anfon data personol. Rhaid cytuno ar lwybr unrhyw geisiadau electronig gyda'r awdurdod cyn eu hanfon, fel bod y person cywir yn gallu cadarnhau derbyn.

6.13 Mae gan awdurdodau lleol bolisiau a phrotocolau Diogelwch Gwybodaeth. Dylai'r bobl sy'n trin ceisiadau am drwyddedau drafod y systemau a gaiff eu defnyddio gyda'u timau Diogelwch Gwybodaeth eu hunain ac ystyried beth y gellid ei wneud i wella diogelwch yr wybodaeth hon, boed electronig neu analog, drwy gydol y broses ymgeisio.



## 7. Sut caiff y cais ei ystyried?

### Crynodeb

**Dylid cyflwyno ceisiadau llawn o leiaf 21 diwrnod cyn bod angen y drwydded. Gall awdurdodau lleol ofyn am ragor o wybodaeth a gosod amodau ychwanegol os bydd angen.**

### Amseru ceisiadau

7.1 Rhaid cyflwyno'r cais yn ysgrifenedig i'r awdurdod lleol lle mae'r plentyn yn byw o leiaf 21 diwrnod cyn bod angen y drwydded. Mae hyn yn caniatáu amser ar gyfer yr holl wiriadau priodol a gwneud yn siŵr bod yr holl weithdrefnau diogelu angenrheidiol yn eu lle. Dylai ymgeiswyr siarad â'r awdurdod lleol ar unwaith os ydyn nhw'n meddwl y bydd angen trwydded er mwyn gallu ymdrin ag unrhyw broblemau cyn gynted â phosibl yn y broses.

### Ceisiadau am wybodaeth sydd heb ei chynnwys neu wybodaeth ychwanegol

7.2 Rhaid cyflwyno'r holl wybodaeth a gynhwysir yn Atodiad B oni bai ei bod yn amlwg yn amherthnasol i'r plentyn dan sylw. Os nad yw'r awdurdod lleol yn derbyn yr holl wybodaeth angenrheidiol, yna dylai wneud cais i'r ymgeisydd am unrhyw wybodaeth sydd ar goll. Hyd nes y caiff yr wybodaeth hon ei derbyn, ni ddylid ystyried y cais ac mae'n debygol y ceir oedi gydag unrhyw drwydded.

7.3 Gall yr awdurdod hefyd wneud cais am wybodaeth bellach os yw'n teimlo bod angen rhagor o wybodaeth er mwyn penderfynu ar y cais. Mae hyn yn cynnwys:

- archwiliad ac adroddiad meddygol ar y plentyn (nid yw hwn yn ofyniad awtomatig bellach, ond gellir gofyn amdano os yw'n ymddangos yn angenrheidiol);
- cyfweliad gyda'r athro preifat a argymhellir gan yr ymgeisydd;
- cyfweliad gyda'r plentyn, rhiant/rhieni'r plentyn, yr ymgeisydd neu'r hebryngwr arfaethedig.

### Amodau pellach

7.4 Rhaid i'r awdurdod lleol wneud popeth o fewn ei allu i ddiogelu iechyd, llesiant ac addysg y plentyn. Gall hyn olygu amodau pellach i ddiogelu'r rhain cyn cytuno i roi trwydded. Bydd trafodaethau cynnar gyda staff yr awdurdod yn bwysig i wneud yn siŵr fod unrhyw broblemau'n cael eu hegluro'n llawn a'u deall, a bod unrhyw amodau pellach yn cael eu derbyn a'u dilyn yn gywir.

7.5 Os nad yw cais am drwydded yn cynnwys dyddiadau'r perfformiad neu weithgaredd arfaethedig, yna rhaid i'r awdurdod osod terfyn ar y nifer o ddyddiau y caiff y plentyn gymryd rhan dros gyfnod o chwe mis. Gellir rheoli hyn drwy roi cymaint o wybodaeth â phosibl i'r awdurdod yn y cais er mwyn sicrhau bod y llwyth gwaith arfaethedig mor glir â phosibl i bawb.

## **Amserlen**

7.6 Nid oes cyfyngiad o ran amser ystyried y cais. Mae'n bosibl y caiff cais a gyflwynir llai na 21 diwrnod cyn y perfformiad cyntaf ei wrthod. Os bydd awdurdod yn gofyn am ragor o wybodaeth, gallai hyn olygu oedi pellach cyn cael y drwydded. Fodd bynnag mae llawer o awdurdodau yn fodlon rhoi trwyddedau o dan 21 diwrnod os yw'r cais yn glir ac yn gyflawn a lle mae'r ystod o faterion diogelu wedi'u cyflawni'n gywir. Mae ceisiadau anghyflawn neu nad ydyn nhw wedi ystyried diogelu'r plentyn yn iawn yn debygol o gymryd mwy o amser neu gael eu gwrthod.

## **Cymeradwyo llety**

7.7 Rhaid i'r awdurdod trwyddedu gymeradwyo unrhyw leoliad lle bydd y plentyn yn aros os nad yw'n aros gartref. Mae gan yr awdurdod ddisgresiwn eang i sicrhau bod y llety'n addas i ddiwallu anghenion y plentyn neu'r plant sy'n aros yno, gan gynnwys prydau bwyd addas sy'n diwallu gofynion dietegol, diwylliannol neu ofynion eraill. Hefyd gall osod amodau pellach ar y drwydded i wneud yn siwr bod y plentyn yn cael cludiant priodol i'r lleoliad perfformio ac yn ôl, ac unrhyw amodau eraill y mae'n teimlo eu bod yn angenrheidiol i gynnal llesiant y plentyn.

## **Cymeradwyo'r lleoliad perfformio neu ymarfer**

7.8 Rhaid i'r awdurdod trwyddedu hefyd gymeradwyo'r lleoliad neu'r lleoliadau ble bydd y plentyn yn perfformio, yn ymarfer neu'n cymryd rhan mewn gweithgaredd. Mae hyn yn cynnwys unrhyw leoliadau ar gyfer ffilmio neu ddarlledu, unrhyw ystafelloedd ymarfer, unrhyw stadiymau chwaraeon neu leoliadau ar gyfer modelu a sioeau ffasiwn, yn ogystal â theatrau a setiau ffilm/teledu. Ni all yr awdurdod gymeradwyo lleoliad - ac felly ni all gymeradwyo trwydded - oni bai ei fod yn fodlon ei fod yn addas i'r plentyn dan sylw, gan roi ystyriaeth i oed, rhyw ac unrhyw faterion eraill.

7.9 Rhaid cael trefniadau priodol ar gyfer prydau bwyd, gwisgo a newid dillad a gwisgoedd, a thoiledau, ymolchi a hylendid. Yn benodol, rhaid i unrhyw blant 5 oed neu fwy allu newid mewn cyfleusterau sy'n gyfyngedig i'w rhyw eu hunain, nid ardaloedd cymysg neu ardaloedd 'plant' anghyfyngedig. Dylai'r ardaloedd hyn hefyd fod yn gyfyngedig i blant lle bo'n bosibl. Os nad yw hyn yn bosibl yna dylid gosod cyfyngiadau ar fynediad gan oedolion i'r ardaloedd hynny a chadw atyn nhw'n gaeth.

## **Cymeradwyo neu wrthod cais**

7.10 Os caiff y drwydded ei chymeradwyo, dylai'r awdurdod lleol anfon y drwydded at yr ymgeisydd mewn modd diogel, gan restru unrhyw amodau y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol. Hefyd rhaid anfon copi at rieni'r plentyn a'r awdurdod/au lle bydd y perfformiadau neu weithgareddau yn digwydd.

7.11 Os yw awdurdod lleol yn gwrthod y drwydded, dylai egluro'r rhesymau'n ysgrifenedig i'r ymgeisydd. Gallai'r penderfyniad i wrthod trwydded gael ei herio, fel y gall yr amodau a osodir ar y drwydded.

## 8. Beth sydd angen i chi ei wneud ar ôl cael y drwydded?

### Crynodeb

Rhaid i ddeiliaid trwydded gadw'r holl ddogfennau angenrheidiol am 6 mis ar ôl y perfformiad olaf. Gall awdurdodau lleol a'r heddlu ofyn am gael gweld y rhain a gall awdurdodau archwilio adeiladau, llety, trefniadau addysg a hebrwng fel rhan o'u dyletswyddau.

### Cadw cofnodion

8.1 Unwaith y caiff trwydded ei chaniatáu, rhaid i'r deiliad trwydded gadw copïau o'r holl wybodaeth a'r dogfennau oedd yn rhan o'r cais am y drwydded honno am chwe mis ar ôl dyddiad y perfformiad olaf a nodir arni. Gall yr awdurdod lleol yn yr ardal lle cynhelir y perfformiad neu swyddog heddlu archwilio'r drwydded ar unrhyw adeg yn ystod oes y drwydded.

### Cadw cofnodion o'r amser a gaiff ei dreulio gan y plentyn

8.2 Rhaid i ddeiliaid trwydded gadw cofnodion o'r dyddiau a faint o amser mae'r plant yn ei dreulio:

- yn y lleoliad perfformio neu ymarfer;
- yn perfformio, ymarfer neu mewn gweithgareddau chwaraeon a modelu (mae hyn yn cynnwys yr amser i gynhesu neu oeri);
- yn perfformio neu ymarfer yn barhaus;
- yn gorffwys neu ar seibiannau bwyd;
- yn cael addysg;
- yn perfformio ar ôl yr amser hwyraf a nodir ar y drwydded;
- yn perfformio yn ystod y nos;

yn ogystal â:

- amser dechrau a gorffen pob dydd;
- cofnod o bob anaf a salwch;
- dyddiadau unrhyw seibiannau mewn perfformiadau (pan fydd plentyn yn perfformio am yr uchafswm nifer o ddiwrnodau);
- rhestr o'r holl arian a enillir gan y plentyn, boed yn cael ei dalu i'r plentyn neu i berson arall ac (os yw'n ofynnol yn y drwydded) sut mae hyn wedi'i reoli.

### Gorfodi, estyn a diddymu gan yr awdurdod lleol

8.3 Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod lles y plentyn yn cael ei amddiffyn drwy gydol cyfnod y drwydded. Gall yr awdurdod trwyddedu (lle mae'r plentyn yn byw) neu'r awdurdod lletyol (lle mae'r perfformiad yn digwydd) neu'r heddlu archwilio'r cofnodion uchod. Gallan nhw archwilio'r cofnodion hyn, neu'r llety neu'r lleoliad(au) perfformio ac ymarfer, er mwyn gwneud yn siŵr fod yr amodau trwyddedu yn cael eu bodloni. Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ddeiliaid trwydded gadw rhai cofnodion penodol am chwe mis ar ôl y perfformiad neu weithgaredd olaf.

#### 8.4 Elfennau y gallai'r awdurdod lleol edrych arnyn nhw wrth archwilio lleoliad perfformiad neu weithgaredd yw:

- sicrhau bod y plant sy'n cymryd rhan yn y perfformiad yn hapus, yn ffit ac nad ydyn nhw'n cael eu gorweithio;
- archwilio'r cyfleusterau gan gynnwys llety, cysgod, ac a yw'r plant wedi cael dillad addas, bwyd a diod;
- hebryngwyr – goruchwyliaeth, perthynas gyda'r plentyn;
- tiwtora – trafod gyda'r tiwtor, y plentyn a'r rhiant, archwilio cofnodion;
- iechyd a diogelwch (argaeledd/mynediad at/darpariaeth) cymorth cyntaf, cyfleusterau meddygol;
- cadw cofnodion – archwilio trwyddedau a thafleuni cofnodi dyddiol;
- arsylwi a thrafod gyda'r plentyn, rhiant, hebryngwr a'r tîm cynhyrchu.

## **9. Beth am gymryd rhan mewn perfformiadau neu weithgareddau tramor?**

### **Crynodeb**

Rhaid cyflwyno cais am drwydded i blentyn gael perfformio dramor er elw i ynad. Mae'r rheolau'n wahanol i blant dan 14 oed a'r rhai sy'n 14 oed a throsodd. Dim ond am dri mis ar y tro y gellir rhoi trwydded a rhaid i'r ynad fod yn fodlon fod y plentyn yn deall yr hyn y mae gofyn iddo ei wneud.

### **Trwydded ar gyfer perfformiadau neu weithgareddau tramor**

9.1 Os yw plentyn yn mynd i weithio dramor er elw, yna rhaid i ynad roi trwydded cyn y caiff deithio a chymryd rhan. Yn yr achos hwn, 'tramor' yw y tu allan i Brydain Fawr ac Iwerddon, felly nid oes angen trwydded gan ynad ar gyfer ymweld â Gweriniaeth Iwerddon a Gogledd Iwerddon.

9.2 I blant dan 14 oed, gellir caniatáu trwydded dim ond pan fydd y plentyn:

- yn actio rhan na all neb ond plentyn o'r oedran hwnnw ei actio;
- yn dawnsio mewn bale (neu fel rhan o opera) na all neb ond plentyn o'r oedran hwnnw ddawnsio'r rhan; neu
- yn cymryd rhan sy'n gwbl neu'n bennaf yn gerddorol mewn perfformiad sy'n gwbl neu'n bennaf yn sioe gerdd, opera neu fale.

Ar gyfer y ddau amod cyntaf, rhaid cael datganiad i gyd-fynd â'r cais i'r perwyl na all neb ond plentyn tua'r oedran hwnnw actio neu ddawnsio'r rhan.

9.3 O 14 oed hyd at oedran gadael ysgol, gellir caniatáu trwydded i blentyn wneud y canlynol:


- canu, chwarae (offeryn cerdd), perfformio neu gael ei arddangos er elw, gan gynnwys unrhyw berfformiadau i'w darlledu (byw neu wedi'u recordio); neu
- cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithio fel model gyda'r plentyn yn cael ei dalu am gymryd rhan (boed y taliad yn cael ei wneud i'r plentyn yn uniongyrchol neu i unrhyw berson arall) ar wahân i dreuliau.

9.4 Rhaid i'r ynad fod yn fodlon fod y plentyn yn mynd dramor ar gyfer gwaith penodol gyda chontractau i gadarnhau hyn, bod y plentyn yn deall yr hyn y mae gofyn iddo ei wneud, ei fod yn ffit ac yn iach, a bod trefniadau wedi'u gwneud i'r plentyn ddychwelyd adref ar ôl diwedd y contract. Dylai'r ynad sicrhau ei fod wedi cysylltu â'r awdurdod lleol lle mae'r plentyn yn byw i gael unrhyw wybodaeth am berfformiadau a cheisiadau trwydded diweddar y plentyn, a chael gwybodaeth arall y gallai'r awdurdod lleol neu'r ynad bennu ei bod yn berthnasol i'r cais i weithio dramor.

9.5 Gellir caniatáu trwydded am hyd at dri mis, er y gellir ei estyn. Rhaid i ynad ofyn am ernes gan yr ymgeisydd – arian, eiddo neu ased arall i'w ddal gan y llys i warantu cydymffurfiaeth â'r amodau trwyddedu – os yw'n credu bod angen.

9.6 Mae'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer trwydded i blentyn gymryd rhan mewn perfformiadau neu weithgareddau tramor yn wahanol i'r hyn sydd ei angen i weithio ym Mhrydain Fawr, a chaiff ei hanfon i Lywodraeth Cymru i'w hanfon ymlaen at swyddog consylaidd priodol y DU.

## Atodiad 1: Amlinelliad o'r broses drwyddedu



## Atodiad B: Pa berfformiadau y gellid bod angen trwydded ar eu cyfer

Gallai fod angen trwydded ar gyfer:	Efallai na fydd angen trwydded ar gyfer:
Perfformiadau sy'n bodloni meini prawf yn adran 37(2) Deddf 1963. Gall y rhain gynnwys: actio; canu; dawnsio; chwarae mewn cerddorfa; comedi standup; act consurio; unrhyw gynhyrchiad lle mae'r gweithgaredd wedi'i greu neu ei lunio ar gyfer creu effaith ddramatig.	Dogfennau arsylwadol lle caiff plentyn ei ffilmio'n gwneud gweithgareddau arferol dydd i ddydd er enghraifft chwarae yn y stryd, cymryd rhan mewn gwrs arferol, hyfforddi chwaraeon
Teledu 'realaeth' lle caiff gweithgaredd y plentyn ei lunio/reoli neu gyfarwyddo at ddiben yf adloniant.	Caiff elfennau o raglen lle nad yw'r plentyn yn cael ei gyfarwyddo ond ei arsylwi'n gwneud gweithgareddau normal eu trin fel dogfen arsylwadol cyhyd â bod y plentyn yn cael ei ffilmio heb gyfarwyddyd.
Cyflwyno neu arwain (lle ceir elfen o berfformiad ddyfeisiedig).	Gohebu newyddion dyddiol, adroddiadau newyddion (gan gynnwys ymchwiliadau er budd y cyhoedd fel profi a yw siopau'n gwerthu nwyddau i blant dan oed).
Diddanu neu berfformio lle mae'r perfformiad yn bodloni unrhyw rai o'r meini prawf yn adran 37(2) Deddf 1963 e.e. i gynulleidfa sy'n talu, mewn safle trwyddedig, recordiad ar gyfer ei ddarlledu neu arddangos yn gyhoeddus.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cael cyfweiliad fel aelod o'r cyhoedd;</li> <li>• Cynnyrch mae wedi'i gynhyrchu ei hun, e.e. plentyn yn ei recordio ei hun ac yn ei osod ar y rhyngwyd;</li> <li>• Sesiynau castio a chlyweliadau na chaiff eu recordio i'w harddangos yn gyhoeddus;</li> <li>• Bod yn rhan o gynulleidfa (gwyllo sioe mewn stiwdio, theatr neu stadiwm).</li> </ul>
Dawnsio mewn gŵyl ddawns gymunedol neu berfformiad sy'n bodloni unrhyw rai o'r meini prawf yn adran 37(2) Deddf 1963	Gweithdai dawns ar ddiwrnod y perfformiad mewn lleoliad gwahanol.
Sesiynau ffotograffiaeth a modelu lle mae'r plentyn (neu rywun arall mewn perthynas â chyfranogiad y plentyn) yn derbyn tâl.	Sesiynau ffotograffiaeth a modelu lle nad oes tâl yn cael ei wneud mewn perthynas â chyfranogiad y plentyn.
Cymryd rhan mewn chwaraeon lle mae'r plentyn (neu rywun arall mewn perthynas â chyfranogiad y plentyn) yn derbyn tâl, ar wahân i dreuliau.	Gweithredu fel bachgen neu ferch sy'n nôl peli.



## Atodiad C: Cyfyngiadau amser i blant sy'n cymryd rhan mewn unrhyw berfformiad neu weithgaredd

Oedran	Uchafswm yr oriau mewn un diwrnod yn y lleoliad perfformio neu ymarfer*	Uchafswm yr oriau di-dor o berfformio neu ymarfer mewn un diwrnod	Uchafswm oriau perfformio neu ymarfer mewn un diwrnod	Amseroedd dechrau cynharaf a gorffen hwyraf	Isafswm hyd seibiannau
Genedigaeth nes bod y plentyn yn 5	5 awr	30 munud	2 awr	Dechrau 0700 Gorffen 2200	15 munud 45 munud ar gyfer pryd bwyd (os yw plentyn yn bresennol am 4 awr neu fwy yn ddi-dor)
O 5 nes bod y plentyn yn 9	8 awr	2 awr 30 munud	3 awr	Dechrau 0700 Gorffen 2300	Os yw'n bresennol am 4 i 8 awr: 45 munud ar gyfer pryd bwyd 15 seibiant munud  a seibiant 15 munud ychwanegol os yw'n bresennol am 8 awr neu fwy
O 9 nes bod y plentyn yn oedran gadael ysgol	9 awr 30 munud	2 awr 30 munud	5 awr		

Rhaid defnyddio'r holl seibiannau ar gyfer prydau bwyd, gorffwys, addysg neu hamdden os yw plentyn dan 5 oed

\* Mae hyn yn cynnwys unrhyw amser a gaiff ei dreulio ar addysg fel y cytunir mewn trwydded.

Isafswm seibiant rhwng perfformiadau mewn un diwrnod	Isafswm seibiant dros nos rhwng presenoldeb
1 awr 30 munud  oni bai bod y perfformiad cynharach yn 1 awr neu lai ac nad oes angen teithio. Os felly, gellir lleihau'r isafswm i 45 munud.	12 awr  oni bai bod y plentyn yn cymryd rhan mewn gwaith nos. Os felly'r isafswm seibiant ar ôl gwaith o'r fath yw 16 awr

## Atodiad D: Gwybodaeth sydd ei hangen ar gyfer cais am drwydded

### Rhan A – Y plentyn

Gwybodaeth	Manylion
Enw, cyfeiriad a dyddiad geni	I'w cadarnhau gan y dogfennau a restrir isod.
Enw a chyfeiriad ysgol neu athro preifat.	Dyma'r ysgol mae'r plentyn yn ei mynychu ar hyn o bryd, neu os nad yw'n mynychu ysgol, enw a chyfeiriad yr athro preifat.
Manylion pob trwydded a <b>ganiatawyd</b> i'r plentyn hwn yn ystod y deuddeng mis diwethaf.	Ym mhob achos rhaid i hyn gynnwys (a) enw'r awdurdod lleol (b) y dyddiad y caniatwyd y drwydded; (c) dyddiadau a natur y perfformiadau neu weithgareddau, oni bai bod y drwydded/trwyddedau wedi'u caniatáu gan yr awdurdod y cyfeirir y cais hwn ato.
Manylion pob trwydded a <b>wrthodwyd</b> i'r plentyn hwn yn ystod y deuddeng mis diwethaf.	Unwaith eto rhaid i hyn gynnwys (a) enw'r awdurdod lleol; (b) y rhesymau (os ydyn nhw'n gwybod) pam y gwrthodwyd caniatáu'r drwydded oni bai bod y drwydded/trwyddedau wedi'u gwrthod gan yr awdurdod y cyfeirir y cais hwn ato.
Manylion unrhyw berfformiadau gan y plentyn <b>nad oedd angen</b> trwydded ar eu cyfer yn ystod y deuddeng mis diwethaf.	Ym mhob achos rhaid i hyn gynnwys: (a) dyddiad y perfformiad; (b) nifer dyddiau'r perfformiad; (c) teitl y perfformiad; (d) enw a chyfeiriad y person oedd yn gyfrifol am y perfformiad y cymerodd y plentyn ran ynddo.
Dyddiadau (os oes rhai) y bu'r plentyn yn absennol o'r ysgol yn ystod y deuddeng mis cyn dyddiad y cais ar gyfer cymryd rhan mewn perfformiad neu weithgaredd.	Mae hyn yn cynnwys yr holl achosion pan fu'r plentyn yn absennol oherwydd perfformiad neu weithgaredd. Mae hyn yn cynnwys amseroedd pan fu'r plentyn yn perfformio dan eithriadau, fel cynyrchiadau ysgol, ac amseroedd yr ymgeisiodd gwahanol bobl am drwyddedau ar gyfer y plentyn hwnnw.
Cyfanswm yr arian a enillwyd gan y plentyn yn ystod y deuddeng mis diwethaf.	Rhaid i hyn ddweud a enillwyd yr arian o berfformiadau neu weithgareddau (a) y caniatwyd trwydded ar eu cyfer (b) nad oedd angen trwydded.

## Rhan B – Perfformiad neu weithgaredd

Gwybodaeth	Manylion
Enw, teitl a chyfeiriad yr ymgeisydd	Rhaid i hwn fod y person sy'n gyfrifol am drefnu'r gweithgaredd neu'r cynhyrchiad mae'r plentyn yn cymryd rhan ynddo.
Enw a natur y perfformiadau neu weithgareddau mae'r drwydded ar eu cyfer.	Er enghraifft, theatrig, ffilmio, chwaraeon, modelu, neu ddisgrifiad arall. Rhaid hefyd egluro beth fydd gofyn i'r plentyn ei wneud wrth gymryd rhan a'r math o weithgaredd.
Lleoliad y gweithgareddau, perfformiadau ac ymarfer.	Yn cynnwys manylion unrhyw gyfnodau ar leoliad.
Dyddiadau gweithgareddau, perfformiadau neu ymarferion neu'r nifer o ddyddiau a'r cyfnod y gallai'r plentyn fod yn cymryd rhan.	Os nad oes dyddiadau penodol ar gael eto, rhaid i'r cais nodi'r nifer o ddyddiau mae'r drwydded ar eu cyfer a phryd fydd angen i'r plentyn gymryd rhan.
Cyfanswm amser neu hyd disgwylidig y gweithgareddau ac amcangyfrif o hyd ymddangosiad y plentyn.	Mae hyn yn cynnwys amser ymarfer a rhaid adlewyrchu'r cyfyngiadau ar bresenoldeb a pherfformio.
Faint o waith nos y gofynnir amdano (os o gwbl).	Rhaid i hyn nodi: (a) ar faint o ddyddiau y bydd hyn yn digwydd; (b) pa mor hir fydd gwaith yn para bob dydd; (c) pam fod angen gwaith nos.
Y cyfansymiau y bydd y plentyn yn ei ennill	Mae hyn yn cynnwys faint fydd y plentyn yn ei ennill drwy gymryd rhan yn y perfformiadau neu weithgareddau, ac os nad yw'r arian yn cael ei dalu i'r plentyn ei hun, enw, chyfeiriad a disgrifiad y person fydd yn derbyn y taliad.
Y trefniadau arfaethedig ar gyfer unrhyw ymarferion cyn y perfformiad cyntaf.	Ar gyfer pob ymarfer arfaethedig, nodwch: (a) y dyddiad; (b) y lleoliad; (c) amcangyfrif o'r amser a hyd.
Y dyddiau neu hanner dyddiau y gofynnir am absenoldeb o'r ysgol.	Mae hyn yn cynnwys amser ar gyfer perfformiadau ac ymarferion neu weithgareddau.
Llythyr gan bennaeth ysgol y plentyn	Rhaid i hwn ymdrin ag unrhyw faterion a allai effeithio ar addysg a llesiant y plentyn, yn ogystal â chydysnio i absenoldeb y plentyn o'r ysgol. Dim ond os yw'r awdurdod yn cytuno ei bod yn anymarferol i'r ymgeisydd gael llythyr gan y pennaeth y gellir hepgor hyn.

<b>Gwybodaeth</b>	<b>Manylion</b>
Trefniadau arfaethedig ar gyfer addysg y plentyn (os oes rhai)	<p>Os yw'r plentyn yn mynd i gael ei addysgu yn yr ysgol (ei ysgol arferol neu un arall) yna mae angen enw a chyfeiriad yr ysgol.</p> <p>Os yw'r addysg yn cael ei darparu mewn modd arall, mae angen i'r cais gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) enw, cyfeiriad a chymwysterau'r athro preifat arfaethedig;</li> <li>(b) y lleoliad ble caiff y plentyn ei addysgu;</li> <li>(c) y cwrs astudio arfaethedig;</li> <li>(d) y nifer o blant eraill a gaiff eu haddysgu gan yr athro preifat ar yr un pryd â'r plentyn, a rhyw ac oedran pob un o'r plant eraill;</li> <li>(e) faint o addysg fydd y plentyn yn ei derbyn.</li> </ul>
Enw a chyfeiriad yr hebryngwr arfaethedig, neu os nad oes angen un, enw a chyfeiriad y rhiant neu athro fydd yn gofalu am y plentyn.	
Enw'r awdurdod lleol sydd wedi cymeradwyo penodi'r hebryngwr a enwir yn flaenorol.	
Y nifer o blant fydd yng ngofal yr hebryngwr pan fydd yr hebryngwr yn gofalu am y plentyn.	Gan gynnwys rhyw ac oedran pob plentyn.
Y cyfeiriad ble fydd y plentyn yn byw, manylion unrhyw blant eraill fydd yn byw yno a manylion unrhyw hebryngwr fydd yn byw yn y llety hwnnw.	Mae hyn yn gymwys pan fydd y plentyn yn byw i ffwrdd o gartref neu'r lle mae'n byw fel arfer yn unig.
Amcangyfrif o'r amser y bydd y plentyn yn ei dreulio'n teithio a'r trefniadau teithio.	<p>Rhaid i'r awdurdod ystyried cyfanswm yr amser teithio wrth gytuno i drwydded, felly mae angen i'r cais nodi'r amser y bydd yn ei gymryd i deithio'n ôl a blaen i'r lleoliad perfformio neu ymarfer.</p> <p>Llety dros nos arferol y plentyn fydd y man dechrau fel arfer, gan gynnwys y cartref pan fydd yn aros gyda'i rieni bob nos.</p>

<b>Gwybodaeth</b>	<b>Manylion</b>
Enw unrhyw awdurdod lleol arall y cyflwynwyd cais iddo ar gyfer plentyn arall sy'n cymryd rhan yn y perfformiadau neu weithgareddau mae'r cais yn cyfeirio atyn nhw (os nad yw hyn yn wybyddus ar adeg y cais, dylid ei ddarparu pan fydd yn wybyddus).	Rhestr o'r awdurdodau y cyflwynwyd cais iddyn nhw ar gyfer trwyddedu plant eraill i gymryd rhan yn yr un perfformiadau neu weithgareddau. Os caiff y ceisiadau hynny eu gwneud ar ôl cwblhau'r cais hwn, dylid darparu manylion yr awdurdodau hynny pan fyddan nhw'n wybyddus.

## **Dogfennau ychwanegol**

<b>Gwybodaeth</b>	<b>Manylion</b>
Copi o dystysgrif geni'r plentyn.	
Dau ffotograff unfath o'r plentyn a dynnwyd yn ystod y chwe mis cyn dyddiad y cais.	
Copi o'r contract, contract drafft neu ddogfennau eraill sy'n cynnwys manylion y cytundeb sy'n rheoleiddio ymddangosiad y plentyn yn y perfformiadau neu'n rheoleiddio'r gweithgaredd y gwneir cais am drwydded ar ei gyfer.	
Y polisi neu bolisiau diogelu plant y bydd yr ymgeisydd yn eu dilyn.	

## Atodiad E: Trawsgyfeirio

### Rheoliadau i'r Canllawiau

Rheoliad	Teitl	Canllawiau (paragraffau)
<b>Rhan 1</b>	Cyffredinol	
1	Teitl, dechrau ac ymgeisio	6.4, 6.5
2	Dehongli	
3	Diddymu	
<b>Rhan 2</b>	Gofynion dogfennol mewn perthynas â thrwyddedau	
4	Cais am drwydded	6.1–6.3, 6.6–6.8, 7.1, 7.6
5	Amodau'r drwydded	4.1, 7.4
6	(Trwydded heb ddyddiadau penodol)	7.5
7	(Rhagor o wybodaeth)	7.2, 7.3
8	Ffurf y drwydded	
9	Manylion y mae'n rhaid i'r awdurdod eu darparu	7.10
10	(Manylion i'r awdurdod lletyol)	7.10
11	Cofnodion a gedwir gan ddeiliad y drwydded	8.2
12	Cyflwyno'r drwydded	8.1
13	Polisi diogelu plant	4.3
14	Llythyr gan y pennaeth	2.3, 2.4, 2.8–2.9
<b>Rhan 3</b>	Gofynion cyffredinol sy'n gymwys i bob perfformiad neu weithgaredd trwyddedig	
15	Addysg	2.1, 2.2, 2.10–2.14
16	Enillion	
17	Hebryngwyr	5.1–5.9
18	Llety	7.7
19	Lleoliad perfformio/ymarfer	7.8
20	Trefniadau ac amser teithio	4.8
<b>Rhan 4</b>	Cyfngiadau mewn perthynas â phob perfformiad	Pennod 3
21	Cymhwyso'r rhan hon	
22	Cyflogaeth	3.6
23	Amseroedd cynharaf a hwyraf	3.2, Atodiad C
24	Presenoldeb yn y lleoliad perfformio/ymarfer ac oriau perfformio	3.2, 4.4–4.6, Atodiad C
25	Seibiannau ar y diwrnod mae'r plentyn yn perfformio/ymarfer	3.3, 3.5, Atodiad C
26	Isafswm seibiannau dros nos	3.4, Atodiad C

Rheoliad	Teitl	Canllawiau (paragraffau)
<b>Rhan 5</b>	Cyfyngiadau ac eithriadau mewn perthynas â phob perfformiad trwyddedig	
27	Cymhwyso'r rhan hon	
28	Uchafswm y nifer o ddyddiau olynol	4.7
29	Seibiant yn ystod perfformiadau	4.7
30	Gwaith nos	4.9–4.12
31	Disgresiwn yr hebryngwr	5.10–5.12
<b>Rhan 6</b>	Trwyddedau i berfformio a chyfranogi mewn gweithgareddau tramor	
32	Ffurf y drwydded	9.1–9.5
33	Gwybodaeth i'w chyflenwi i'r swyddog consylaidd	9.6

## Canllawiau i'r Rheoliadau

Canllawiau (Pennod/ Paragraff)	Teitl	Rheoliad	Prif Ddeddfau
<b>1.</b>	<b>Pryd fydd angen trwydded arnoch chi?</b>		
1.1–1.3	Mathau o berfformiad/gweithgaredd		Deddf 1963 s37(2)
1.4	Eithriadau:		Deddf 1963 s37(3)
1.5	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ysgolion</li> </ul>		Deddf 1963 s37(3)(b)
1.6–1.7	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rheol Pedwar Diwrnod</li> </ul>		Deddf 1963 s37(3)(a)
1.8–1.12	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cymeradwyaeth Dorfol</li> </ul>		Deddf 1963 s37(3)(b)
<b>2.</b>	<b>Beth am addysg ac ysgol?</b>		Deddf 1963 s37(4), (7)
2.1–2.2	Absenoldeb o'r ysgol	15	
2.3–2.4	Llythyr y pennaeth	14	
2.5–2.7	Ceisiadau am drwydded a chymeradwyo absenoldeb	14, 15	
2.8–2.9	Perfformiadau eraill	14	
2.10–2.13	Addysg y tu allan i'r ysgol	15	
2.14	Athrawon preifat	15	
<b>3.</b>	<b>Pa reolau sy'n gymwys i bob perfformiad, hyd yn oed heb drwydded?</b>		
3.1	Pob perfformiad	21	
3.2	Amser yn cymryd rhan mewn perfformiad neu ymarfer bob dydd	23, 24	
3.3–3.6	Seibiannau	25, 26	
<b>4.</b>	<b>Beth mae trwydded yn ei gynnwys?</b>		
4.1–4.2	Diogelu plant a'u haddysg	5	
4.3	Polisi diogelu plant	13	
4.4–4.6	Amser yn ymarfer, perfformio ac yn y lleoliad perfformio	24	
4.7	Hyd yr amser yn perfformio	28, 29	
4.8	Amser teithio	20	
4.9–4.12	Gweithio yn y nos	30	
<b>5.</b>	<b>Beth yw swyddogaeth hebryngwr?</b>		
5.1–5.2	Hebryngwyr	17	
5.3–5.4	Hyfforddiant ac addasrwydd	17	
5.5–5.8	Dyletswyddau cyffredinol	17	
5.9	Sgriptiau	17	



<b>Canllawiau (Pennod/ Paragraff)</b>	<b>Teitl</b>	<b>Rheoliad</b>	<b>Prif Ddeddfau</b>
5.10–5.12	Hawl i amrywio amseroedd gorffen	31	
<b>6.</b>	<b>Sut mae ymgeisio am drwydded?</b>		
6.1–6.3	Person cyfrifol	4	
6.4–6.5	Awdurdod lleol cyfrifol		Deddf 1963 s37(1)
6.6–6.7, Atodiad 4	Gwybodaeth angenrheidiol	4 & Atodlen 2	
6.8	Llofnodion	4	
6.9	Asesu risg		
6.10–6.13	Diogelwch Gwybodaeth a Diogelu Data		Deddf Diogelu Data 1988
<b>7.</b>	<b>Sut caiff y cais ei ystyried?</b>		
7.1	Amseru ceisiadau	4	
7.2–7.3	Ceisiadau am wybodaeth sydd heb ei chynnwys ac ychwanegol	6, 7	
7.4–7.5	Amodau pellach	5, 6	
7.6	Amserlen	4	
7.7	Cymeradwyo llety	18	
7.8–7.9	Cymeradwyo'r lleoliad perfformio neu ymarfer	19	
7.10–7.11	Cymeradwyo neu wrthod cais	9, 10 (cymeradwyo)	Deddf 1963 s39(6) (gwrthod etc.)
<b>8.</b>	<b>Beth sydd angen ei wneud ar ôl cael y drwydded?</b>		
8.1	Cadw cofnodion	11	
8.2	Cadw cofnodion o'r amser a gaiff ei dreulio gan y plentyn	11 & Atodlen 3	
8.3–8.4	Gorfodi, estyn a diddymu gan yr awdurdod lleol	12	Deddf 1933 s28 Deddf 1963 s39
<b>9.</b>	<b>Beth am gymryd rhan mewn perfformiadau neu weithgareddau tramor?</b>		1933 Act s25
9.1–9.6	Trwydded ar gyfer perfformiadau neu weithgareddau tramor	32, 33	
<b>Atodiad A:</b>	Amlinelliad o'r broses drwyddedu	4, 5, 6, 7, 8	
<b>Atodiad B:</b>	Pa berfformiadau a allai fod angen trwydded		Deddf 1963 s37(1), (2)

<b>Canllawiau (Pennod/ Paragraff)</b>	<b>Teitl</b>	<b>Rheoliad</b>	<b>Prif Ddeddfau</b>
<b>Atodiad C:</b>	Cyfyngiadau amser i blant sy'n cymryd rhan mewn unrhyw berfformiad neu weithgaredd	23, 24, 25, 26	
<b>Atodiad D:</b>	Gwybodaeth sydd ei hangen ar gyfer cais am drwydded	33 & Atodlen 2, Atodlen 3	